# Adolygiad Pob Pum Mlynedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg

## Adroddiad Terfynol Drafft

Paratowyd ar gyfer

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

gan

NEWIDIEM

Ty Meandros
54a Heol Bute
Caerdydd
CF10 5AF

Meandros House
54a Bute Street
Cardiff
CF10 5AF

Tel 029 2046 3064
Fax 029 2046 3067

post@newidiem.co.uk

Mehefin 2001

# CYNNWYS

1 CRYNODEB GWEITHREDOL ........ 1
1.1 Cyflwyniad ........ 1
1.2 Cynllunio Strategol, Blaenoriaethau a Thargedau ........ 2
1.3 Trefniadaeth fewnol a gweithrediadau ByIG ........ 4
1.4 Llywodraethu Corfforaethol ........ 7
1.5 Casgliad cyffredinol ........ 8

2 CYFLWYNIAD ........ 10
2.1 Cefndir ........ 10
2.2 Cylch gorchwyl ........ 10
2.3 Methodoleg ........ 11
2.4 Strwythur yr adroddiad ........ 12
2.5 Cydnabyddiaeth ........ 13

3 SWYDDOGAETHAU CYNLLUNIO STRATEGOL A CHORFFORAETHOL ........ 14
3.1 Fframwaith statudol ........ 14
3.2 Trefniant a strwythur ........ 14
3.3 Swyddogaethau a gweithgareddau ........ 15
3.4 Fframwaith strategaeth a pholisi ........ 16
3.5 Prosesau cynllunio ........ 21
3.5.1 Cynwysoldeb y broses gynllunio 22
3.5.2 Perthynas y strategaethau i'r gweithrediadau 24
3.5.3 Gweithrediadau ac effeithiau 27
3.5.4 Ymatebolrwydd strategaethau ByIG i rai'r Cynulliad Cenedlaethol 27
3.5.5 Cyfraniad ymchwil a gwerthuso tuag at strategaeth 28
3.5.6 Dull cyfannol o weithredu 30
3.6 Crynodeb o'r casgliadau ........ 31

4 TREFNIADAETH FEWNOL A GWEITHREDIADAU ........... 33
4.1 Fframwaith Trefniadaeth ........ 33
4.2 Polisi a Chynllunio ........ 36
4.3 Marchnata a Chyfathrebu ........ 37
4.4 Adran y Sector Cyhoeddus a Gwirfoddol ........ 38
4.4.1 Adnoddau 40
4.4.2 Pa mor bwysig yw'r gwaith hwn? 41
4.4.3 Galwadau Eraill ar yr Adran 43
4.5 Adran Addysg a Hyfforddiant ........ 44
4.5.1 Trosolwg strategol ar addysg Gymraeg 44
4.5.2 Cynlluniau iaith yn y sector addysg 46
4.5.3 Cynyddu niferoedd 47
4.5.4 Dilyniant yn y ddarpariaeth addysg ddwyieithog 48
4.5.5 Addysg Uwch 49
4.5.6 Cymraeg i oedolion 50
4.5.7 Grantiau ar gyfer hybu addysg Gymraeg 50
4.5.8 Datblygiadau eraill 51
4.6 Adran Grantiau ........ 52
4.6.1 Grantiau mawr 52
4.6.2 Grantiau eraill ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg 55
4.6.3 Grantiau bychan 56
4.6.4 Mentrau Iaith 56
4.7 Materion eraill ........ 59
4.7.1 Presenoldeb rhanbarthol 59
4.7.2 ByIG a'r economi 60
4.7.3 Y Loteri Cenedlaethol 60
4.8 Crynodeb o'r casgliadau ........ 61

5 RHEOLAETH GORFFORAETHOL ........ 63
5.1 Y fframwaith ........ 63
5.2 Asesu cydymffurfiad ........ 64
5.3 Gweithredu'r Datganiad o Reolaeth ........ 64
5.3.1 Adrodd ac archwilio blynyddol 64
5.3.2 Y berthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol 65
5.3.3 Rheoli ac archwilio cyllid a rheolaeth yn fewnol 67

5.3.4 Cydymffurfio â safonau ymddygiad 72
5.3.5 Bod yn agored ..... 73
5.3.5 Ystyriaethau effeithlonrwydd a gwerth am arian 73
5.4 Crynodeb o'r casgliadau ..... 74

ATODIAD 1 : CRYNODEB O ADRODDIAD CAM 1 ..... 76

ATODIAD 2 : CYLCH GORCHWYL ..... 80

ATODIAD 3 : YMGYNGHORIADAU A CHYFLWYNIADAU ..... 84
Sector Cyhoeddus ..... 84
Sector Gwirfoddol/Trydydd Sector ..... 85
Sector Preifat ..... 85
Sector Addysg ..... 85
Sector y Gyfraith ..... 85
Eraill ..... 85
Unigolion ..... 86

ATODIAD 4 : LLYFRYDDIAETH A DOGFENNAU A DDEFNYDDIWYD ..... 87
Dogfennau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ..... 87
Dogfennau eraill ..... 88

# 1 CRYNODEB GWEITHREDOL

## 1.1 Cyflwyniad

Gwnaed yr Adolygiad Pob Pum Mlynedd hwn o FyIG Gymraeg (ByIG) mewn dau gam. Yn y cam gyntaf, ystyriwyd a oedd angen holl swyddogaethau'r corff bellach. Cyflwynwyd yr adroddiad drafft ar y cam gyntaf i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol ar 28 Mawrth 2001. Ei brif gasgliad oedd fod angen parhaol am y corff a'i swyddogaethau. Gwelir crynodeb gweithredol cam cyntaf yr adolygiad yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Mae ail gam yr Adolygiad yn ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud i'w effeithlonrwydd strategol a'i atebolrwydd. Yn yr adolygiad, canolbwyntiwyd ar dair agwedd allweddol o waith ByIG:

- Ei gynllunio strategol a gosod blaenoriaethau a thargedau
- Ei drefniant mewnol a'i weithrediadau
- Ei lywodraethu corfforaethol

Ymhob achos, mae'r adroddiad yn gosod y cyd-destun, yn darparu dadansoddiad ac yn cynnig casgliadau'n seiliedig ar y dadansoddiad.

Mae'r adolygiad yn ceisio adnabod sefyllfaoedd lle gellid gwella effeithlonrwydd ByIG, ond mae'n gwneud hynny mewn cyd-destun sy'n cydnabod llwyddiannau ByIG hyd yma. Fel y crybwyllwyd yn adroddiad y rhan gyntaf, mae'r Bwrdd yn gallu hawlio cryn glod am ei gyfraniad tuag at y newidiadau positif sydd i'w canfod mewn agweddau tuag at yr iaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac am gyflawni ei genhadaeth mewn dull strategol a phroffesiynol.

Mae'r argymhellion yn ymwneud â materion sydd wedi codi yn ystod yr adolygiad, gan y tîm adolygu a gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r adolygiad neu'r sawl a gynigodd sylwadau ysgrifenedig. Mae rhai yn gymharol ddibwys, cafodd eraill eu

rhagweld gan FyIG cyn yr adolygiad ac mae eraill yn cael eu gweithredu eisoes gan FyIG ar ôl cael eu trafod yn ystod yr adolygiad. Fe'u cynhwysir i gyd serch hynny er mwyn rhestru'r pwyntiau gweithredu a awgrymir yn gyflawn i'r Cynulliad a ByIG eu hystyried.

## 1.2 Cynllunio Strategol, Blaenoriaethau a Thargedau

### Casgliadau

Mae gan FyIG fframwaith gynllunio gydlynol sy'n cysylltu cynlluniau corfforaethol a busnes yn ystyrlon i'r cynlluniau strategol. Mae targedau'n cael eu cyrraedd. Ond awgrymir bod angen cryfhau'r fframwaith mewn dwy ffordd:

- Mae'r cynlluniau a'r targedau'n tueddu i ganolbwyntio ar weithgareddau yn hytrach nag ar eu heffeithiau. Oherwydd hynny mae'n anodd ar adegau mesur eu llwyddiant yn erbyn nod statudol ByIG o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg;

- Mae'r cynlluniau strategol yn ceisio wynebu ystod eang o agweddau ar gynllunio ieithyddol, efallai oherwydd mai ByIG hyd yma yw unig ffynhonnell gynllunio strategol cenedlaethol ar gyfer yr iaith. Fodd bynnag, gyda chyllid o £6m a staff o 34, mae ByIG yn un o'r CCNCau lleiaf ac y mae'n rhaid iddo wynebu dewision anodd ynglŷn â sut i wneud yr argraff fwyaf gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun yn adolygu ei bolisi tuag at yr iaith Gymraeg. Credwn fod hyn yn cynnig cyfle ardderchog i fabwysiadu strategaeth sy'n diffinio swyddogaethau ByIG yn glir, ynghyd â swyddogaethau cyrff eraill sydd â'u gweithgareddau'n effeithio ar yr iaith Gymraeg, ac sy'n gosod targedau clir a chyraeddadwy ar gyfer cynyddu defnydd o'r iaith. Fodd bynnag, ni fydd hyn o reidrwydd yn osgoi'r angen am ddewision caled; fe fyddai angen adnoddau sylweddol fwy na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i sicrhau cyrraedd y nod o Gymru ddwyieithog.

## Argymhellion

1. Bod ByIG yn adolygu ei strategaeth yng ngoleuni adolygiad cyfredol y Cynulliad Cenedlaethol o'i strategaeth ei hun ar gyfer yr iaith Gymraeg ac yn cynhyrchu dogfen gynllunio ddiwygiedig sy'n gosod allan targedau penodol dros gyfnodau o bum mlynedd ar gyfer cynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg mewn sectorau ac ardaloedd arbennig.
2. Bod strategaeth ByIG yn dangos yn glir y mesurau penodol a fwriedir ar gyfer cynyddu defnydd o'r iaith yn y sectorau a'r ardaloedd perthnasol, er enghraifft, bydd y mesurau ar gyfer cefnogi siaradwyr newydd sy'n gadael addysg amser-llawn mewn ardaloedd lle mae mwyafrif y boblogaeth yn ddi-Gymraeg yn sylweddol wahanol i fesurau ar gyfer cefnogi cymunedau yn y broydd Cymraeg.
3. Bod ByIG yn gwahodd cyfraniad gan y bobl tuag at ddatblygu polisi a strategaeth drwy gynnwys sefydliadau partner (megis y rhai sy'n derbyn cymorth grant ganddo) a chynrychiolwyr sectorau allweddol (megis pobl ifanc a'r sector gwirfoddol) yn y broses ddatblygu.
4. Bod y strategaeth yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu parhaus gyda darpariaeth ar gyfer monitro perfformiad yn rheolaidd a mireinio gweithredoedd yng ngoleuni canlyniadau'r broses fonitro.
5. Bod Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol, wrth iddo adolygu ei bolisi cyfredol, yn dal ar y cyfle hwn i ystyried datblygu strategaeth gynhwysol ar gyfer yr iaith Gymraeg sy'n ystyried effeithiau cyrff cyhoeddus eraill ar yr iaith, sy'n amlinellu sut mae cydlynu gweithredoedd o blaid yr iaith ac sy'n adnabod mecanweithiau i ddod â'r iaith yn fwyfwy i brif ffrwd gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru.
6. Bod ByIG yn gofyn i asiantaethau eraill ddarparu asesiadau o effaith eu cynlluniau eu hunain ar yr iaith Gymraeg er mwyn galluogi ByIG i wneud darpariaeth briodol yn ei gynlluniau yntau i ddatblygu prosiectau cyfaddas neu i weithredu i ddatrys pethau.

7. Bod ByIG yn cyhoeddi astudiaethau ymchwil a chanlyniadau ar ei safle ar y we, gan nodi'r hyn y bwriada ei wneud a chan wahodd sylwadau gan y cyhoedd.

8. Bod ByIG yn ystyried mynegi yn eu cynlluniau corfforaethol a gweithredol y gweithrediadau arfaethedig a'r effaith a ddisgwylir oddi wrth y cymdeithasau a gynhelir ganddo drwy ddull grantiau, dylanwad rhagweladwy'r cynlluniau iaith a'r flaenoriaeth gymharol a roir i'w gweithgareddau a'u gwariant.

9. Bod ByIG yn ei Gynlluniau Gweithredol, yn sylfaenu cyfeiriadaeth polisi a gosod targedau ar effeithiau arfaethedig yr ymyrryd yn hytrach nag ar y gweithrediadau eu hunain.

10. Bod ByIG yn llunio dull ar gyfer recriwtio paneli o siaradwyr/dysgwyr y Gymraeg a leolwyd yn strategol er mwyn penderfynu sut ac i ba raddau y bydd amrywiol ddylanwadau yn effeithio ar eu defnydd o'r iaith ac yn ôl hynny fesur dylanwad y gweithgareddau a wnaed gan FyIG

11. Bod ByIG yn datblygu cynllun o gloriannu ac o gadw cofnod er mwyn penderfynu gwerth am arian a blaenoriaethau ar gyfer adnoddau wrth ymyrryd i gefnogi'r iaith Gymraeg.

12. Bod ByIG yn arolygu ei strwythur trefniadol er mwyn adlewyrchu dull sydd yn fwy cyfannol ynghylch ei brif swyddogaeth, sef hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

13. Bod ByIG yn cymryd gofal wrth ddefnyddio termau technegol o faes cynllunio iaith wrth iddynt gyfathrebu gyda'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr.

## 1.3 Trefniadaeth fewnol a gweithrediadau ByIG

### Casgliadau

Mae trefniadaeth fewnol ByIG yn adlewyrchu'r swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf, ynghyd â dyletswyddau penodol a gafodd ers ei sefydlu. Mae hyn wedi creu strwythur adrannol sy'n rhannu ei staff o

34 yn saith adran wahanol. Mae perygl y bydd yr adrannau hyn yn datblygu meddylfryd 'seilo' a dylid gweithredu i greu ymagwedd mwy holistig er mwyn hybu a hyrwyddo defnydd o'r iaith.

Mae pob adran yn gweithredu o dan bwysedd. Mae hyn oherwydd natur eang eu cyfrifoldebau a'u llwyth gwaith cynyddol, yn arbennig yn yr adran Sector Cyhoeddus a Gwirfoddol oherwydd ymestyn ei chyfrifoldeb yn gyson i ddechrau a monitro cynlluniau iaith y sector cyhoeddus. Mae diffyg eglurder yn ystyr goblygiad yr Adran Addysg a Hyfforddi i gynnal gorolwg o addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

Er hyn, mae llawer wedi'i gyflawni. Gwelwyd gwelliant amlwg yn statws yr iaith Gymraeg o fewn gweinyddu cyhoeddus a chyfreithiol. Gwelwyd cynnydd yn y ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant dwyieithog. Mae llawer mwy o wasanaethau ar gael erbyn hyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Datblygwyd mentrau calonogol i annog trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd ac i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn busnes a masnach. Bu'n rhaid i strwythur yr iaith addasu'n sylweddol i'r gofynion newydd a wnaed arni gan y cynnydd yn y meysydd hyn ac mae ByIG wedi arwain wrth annog datblygu termau newydd, datblygu medr mewn cyfieithu a chyflwyno'r iaith i feysydd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae llawer o gefnogaeth ByIG i gymunedau a'r gweithredu o'u mewn yng Nghymru yn cael eu wneud drwy'r Mentrau Iaith hynod gymeradwy. Bu'r rhain yn ddiweddar yn destun arfarniad annibynnol ac mae rhai materion pwysig wedi dod i'r amlwg. Er bod Mentrau Iaith yn cynnig nifer o fanteision i FyIG wrth roi cefnogaeth i'r iaith ar lefel gwerin gwlad, mae perygl eu hystyried fel ateb yn hytrach na mecanwaith. Rhaid gosod targedau gweithredu penodol iddyn nhw a chynnig hyfforddiant a mesurau cefnogi ymarferol gan gynnwys annog dyfeisgarwch a rhannu arfer da.

Cyflawnir amcanion eraill ByIG drwy ddarparu grantiau i sefydliadau partneriaid. O fewn y rhain mae'r grantiau mawr blynyddol i sefydliadau penodol oedd yn derbyn cefnogaeth uniongyrchol gynt gan y Swyddfa Gymreig. Mae materion cyfrifoldeb a thargedu cymorth i flaenoriaethau ByIG gyda'r sefydliadau hyn.

Mae grantiau eraill yn caniatau i FyIG ddatblygu perthnasoedd pwrpasol gyda chyrff eraill ac i ymestyn ystod swyddogaethau a dylanwad ByIG y tu hwnt i'r hyn y gall ei staff gyflawni oherwydd eu bod o dan bwysau trwm.

## Argymhellion

14. Y dylai BYIG drafod gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i ba raddau y gall barhau i gychwyn a monitro cynlluniau iaith Gymraeg cyrff cyhoeddus ac archwilio dulliau o ddatganoli agweddau ar y broses fonitro i gyrff archwilio eraill priodol.

15. Y dylai BYIG a'r Cynulliad Cenedlaethol weithio yn glos gyda'i gilydd i ddatblygu diwylliant cadarnhaol o gefnogaeth i'r iaith Gymraeg ym mhob maes gweinyddu a datblygu cyhoeddus.

16. Bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno gyda ByIG ynghylch beth yw hyd a lled ei gyfrifoldeb dros gynnal trosolwg ar addysg a hyfforddiant Cymraeg a gwahanol swyddogaethau'r mudiadau a'r asiantaethau eraill perthnasol.

17. Bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod yn agored y cyfyngiadau ar allu ByIG i fwyhau'r budd strategol o'i grantiau i gyrff diwylliannol cenedlaethol a etifeddwyd oddi wrth y Swyddfa Gymreig.

18. Bod ByIG yn ystyried sut y gall ddwysau ei anogaeth i weld mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat.

19. Bod ByIG yn adolygu ei ddisgwyliadau o'r cyrff sy'n derbyn ei gefnogaeth drwy grantiau, yn benodol y Mentrau Iaith, yng ngoleuni rhai astudiaethau arfarnu diweddar a'i fod yn cyfeirio'i gefnogaeth yn fwy penodol i weithgareddau a luniwyd i annog mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg.

20. Bod ByIG, o gofio'r uchod, yn ystyried sut orau y gall gefnogi gwaith y Mentrau Iaith yn fwy na rhoi grant yn unig, er enghraifft, drwy gynnig hyfforddiant, gwell cydlyniant a cheisiadau canolog am arian ychwanegol o ffynonellau eraill i gefnogi eu gwaith.

21. Bod ByIG yn ystyried sut y gall gryfhau ei bresenoldeb rhanbarthol yng Nghymru, efallai drwy drefniant gyda sefydliadau eraill a Mentrau Iaith.

22. Bod ByIG yn chwilio am gyfleoedd i weithio ar y cyd gydag asiantaethau datblygu eraill a Byrddau'r Loteri i ddatblygu cyd brojectau er budd cymunedau Cymraeg eu hiaith ym mhob ardal o Gymru.

## 1.4 Llywodraethu Corfforaethol

### Casgliadau

Mae'r Bwrdd yn un o'r lleiaf o'r Cyrff Cyhoeddus wedi'u Noddi gan y Cynulliad. Mae hyn yn golygu taw cyfyng yw'r adnoddau sydd ar gael iddo ar gyfer gweinyddu o'u cymharu ag adnoddau Cyrff Cyhoeddus wedi'u Noddi gan y Cynulliad sydd â chyllidebau blynyddol sylweddol uwch. Serch hynny, mae'r sefydliad yn cael ei redeg yn dda. Mae'r adroddiadau archwilio mewnol ac allanol blynyddol yn dangos fod ganddo systemau rheoli cadarn a hanes o weinyddu medrus. Mae gan y Bwrdd Bwyllgor Archwilio â chyfansoddiad cywir, sy'n cynnwys aelodau anweithredol o'r Bwrdd, sy'n cael ei ystyried yn fewnol ac yn allanol yn bwyllgor effeithiol. Mae perthynas y Bwrdd â'r Cynulliad Cenedlaethol ar lefel weithredol o ran trefniadau adrodd a gweithio yn bositif ac yn gynhyrchiol.

Oherwydd bod y rheoli a'r adrodd wedi mynd yn fwy soffistigedig yn ystod y degawd diwethaf, rhaid amau rhai o'r cyfyngiadau hynafol ar gyrff anadrannol. Rydym yn amheus ynghylch perthnasedd rhai o'r cyfyngiadau llafurus a chymharol fympwyol ar ryddid y Bwrdd i weinyddu'r adnoddau a roddir iddo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y llaw arall, rydym o'r farn y gallai'r symud tuag at asesu risgiau fod yn arf pwysig i'r Bwrdd wrth werthuso effaith ei ymyriadau er budd yr iaith Gymraeg.

Mae gan y Bwrdd ddiwylliant o weinyddu cyfrifol sy'n ymestyn at y gwerthusiad rheolaidd – yn fewnol ac yn allanol – o'i brif

weithgareddau a gwariant. Serch hynny, hoffem weld y gwerthuso'n dod yn fwy amlwg fel rhan annatod o'r broses datblygu polisïau.

### Argymhellion

23. Bod y Cynulliad Cenedlaethol yn adolygu'r terfynau presennol o ran dirprwyo awdurdod, yn enwedig mewn perthynas â'r grantiau mawr blynyddol i sefydliadau penodedig, gwariant ar werthuso ac astudiaethau tebyg a chyfyngiadau ar amodau cyflogaeth.
24. Bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o adrodd eithriad gan adran weithredol y Bwrdd i'r Bwrdd er mwyn gofalu bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o amser aelodau'r Bwrdd drwy hoelio sylw ar faterion sydd ag angen penderfyniadau ar lefel y Bwrdd a materion lle gall aelodau'r Bwrdd ychwanegu gwerth at y broses o wneud penderfyniadau o'u safbwyntiau daearyddol a sectoraidd eu hunain a'u meysydd arbenigedd.
25. Bod aelodau'r Bwrdd, y staff a chyd-sefydliadau allweddol yn cael cyfarwyddiadau trwyadl ynghylch goblygiadau asesu risgiau a gofalu bod hyn yn elfen annatod o waith y Bwrdd.
26. Bod y Bwrdd yn dyfeisio rôl ddeinamig i aelodau'r Bwrdd o ran datblygu strategaeth i fanteisio'n llawn ar eu harbenigedd sectoraidd a'u gwybodaeth bersonol am wahanol ranbarthau Cymru.

## 1.5 Casgliad cyffredinol

Ni fu'r Adolygiad hwn yn hir cyn sefydlu nad oedd ymhlith cyfranddeiliaid unrhyw bryderon ynghylch perfformiad By IG hyd yma a oedd ar unrhyw wedd yn ddigon difrifol i godi amheuaeth ynglŷn â'i fodolaeth nag i awgrymu newidiadau dfrifol i'w weithrediad. Dangosodd ein hymgynghoriadau gefnogaeth eang i FyIG. Ond amlygwyd hefyd densiynau a sensitifrwydd sy'n cyflyru dulliau ByIG o gyflawni ei genhadaeth.

Mae rhai sy'n anfodlon gyda'r cynnydd hyd yn hyn oherwydd eu bod yn gresynu nad oedd Deddf yr Iaith Gymraeg yn fesur mor rymus â rhai enghreifftiau Ewropeaidd, yn enwedig rheini yng Ngwlad y Basg a Chatalwnia. Teimla eraill, gyda chyfiawnhad amlwg, y ceid cynnydd cynt pe rhoddid adnoddau mwy sylweddol i FyIG. Mae cyfran fechan ond hyglyw yn gwrthwynebu bodolaeth ByIG ac yn honni fod Deddf yr Iaith Gymraeg yn peryglu hawliau dinesig y di-Gymraeg. Ond yn gyffredinol mae consensws fod ByIG wedi gwneud argraff sylweddol trwy godi statws y Gymraeg tra'n cadw cefnogaeth y cyhoedd i'r iaith, hyd yn oed ymhlith y rhai nad ydynt yn ei siarad, a thrwy ddatblygu strategaethau argyhoeddiadol ar gyfer ei datblygiad at y dyfodol.

Rhoddodd cam cyntaf yr Adolygiad Pob Pum Mlynedd hwn gefnogaeth i barhad ByIG ac amlygodd ei lwyddiannau hyd yma. Mae'r cam hwn yn anorfod yn amlygu mannau lle y credir bod lle i wella ar ddulliau gweithredu ByIG. Cafodd rhain eu trafod yn ystod yr Arolwg gyda swyddogion ByIG, y Cynulliad Cenedlaethol ac eraill. Ymhob achos cawsom ein siomi o'r ochr orau gan ewyllys da a pharodrwydd pawb i gofleidio unrhyw awgrym a allai gynorthwyo ByIG i gyrraedd ei nodau.

Hyderwn y bydd y Cynulliad Cenedlaethol a ByIG yn canfod ymhlith yr argymhellion rhai awgrymiadau ymarferol a allai gynorthwyo ByIG i gyflawni ei genhadaeth uchelgeisiol o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael iddo.

# 2 CYFLWYNIAD

## 2.1 Cefndir

Ar 10 Mai 2000, cyhoeddodd Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru raglen at y dyfodol o Adolygiadau Pob Pum Mlynedd o bedwar ar ddeg o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNCau). Yn ôl canllawiau'r adolygiadau hyn, a gyhoeddwyd ym Mai 2000 hefyd, roedd yn ofynnol iddynt ymchwilio:

- a oedd angen parhaus am swyddogaethau'r corff a gâi ei adolygu ac, os felly,
- pa welliannau y gellid eu gwneud i'w effeithiolrwydd a'i atebolrwydd strategol.

Dewiswyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (ByIG) i'w adolygu yn 2000-2001 a phenodwyd tîm ymgynghorol Newidiem i ymgymryd â'r adolygiad gan y Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg ynghyd â'r Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Pennwyd y dylid cynnal yr adolygiad mewn dau gam, a'r ail gam yn ddibynnol ar ganlyniad y cyntaf.

Cyflwynwyd yr adroddiad drafft ar y cam cyntaf i'r Pwyllgor ar 28 Mawrth 2001. Ceir Crynodeb Gweithredol yr adroddiad hwn yn Atodiad 1. Yn sgil hyn awdurdodwyd Newidiem gan y Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg i fwrw ymlaen gydag ail gam yr adolygiad. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniad y gwaith hwn.

## 2.2 Cylch gorchwyl

Ceir cylch gorchwyl yr adolygiad yn Atodiad 2. Mae'r ail gam yn ymwneud ag effeithiolrwydd strategol a rheolaeth ariannol ByIG.

## 2.3 Methodoleg

Megis yn achos pob adolygiad pum mlynedd o CCNC, comisiynwyd yr adolygiad hwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda golwg ar atgyfnerthu perthynas y Cynulliad â'r cyrff a noddir ganddo er mwyn gweithio tuag at ddarparu llywodraeth well a symlach.

Drwy gydsyniad a chydweithrediad Pwyllgor Llywio'r Adolygiad, arferodd yr ymgynghorwyr y fethodoleg a ganlyn ar gyfer y ddau gam yn y broses adolygu:

- adolygu'r dogfennau perthnasol, gan gynnwys dogfennau mewnol ac allanol BwIG; polisïau, trafodion a chofnodion y Cynulliad Cenedlaethol; cyhoeddiadau ac adroddiadau ar faterion sy'n berthnasol i'r astudiaeth gan arbenigwyr, ymgynghorwyr a sylwedyddion annibynnol;

- ymgynghoriad cyhoeddus helaeth i wahodd sylwadau gan ryw 400 o gyrff sydd â budd potensial yn BwIG neu a allai gael eu heffeithio gan ei swyddogaethau; cyfweliadau wyneb yn wyneb â detholiad o sefydliadau ac unigolion allweddol; a gwahoddiad agored i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau ar waith a chyfrifoldebau BwIG;

- adolygiad o bolisïau a fabwysiadwyd gan wladwriaethau a llywodraethau mewn mannau eraill yn y byd i ddiogelu a datblygu ieithoedd 'lleiafrifol';

- asesiad o anghenion cynllunio ieithyddol y Gymraeg yng Nghymru a pherthnasedd arferion gwledydd eraill i'r sefyllfa gartref, gyda sylw neilltuol i'r rheini a allai ddylanwadu ar ddatblygiad pwerau a dulliau BwIG yn y dyfodol;

- asesiad o'r opsiynau a awgrymir gan y broses ymgynghori ac adolygiad o'r arferion tramor gyda golwg ar newidiadau posibl i gyfrifoldebau a swyddogaethau cynllunio ieithyddol yng Nghymru, o fewn y fframwaith strategol cyfredol.

Cynhelir yr adolygiad hwn o BwIG ar adeg pryd mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi rhoi adolygiad helaeth arall o bolisi'r iaith

Gymraeg yng Nghymru ar waith. Cadwyd hyn mewn cof wrth lunio rhai casgliadau ac argymhellion.

## 2.4 Strwythur yr adroddiad

Mae'r ail gam hwn yn yr Adolygiad yn ystyried pa welliannau y gellid eu gwneud o ran effeithiolrwydd ac atebolrwydd strategol ByIG. Mae'r adolygiad wedi ymdrin â'r tair agwedd a ganlyn:

- Swyddogaethau cynllunio a chorfforaethol ByIG
- Trefniadau a gweithrediadau ByIG
- Trefn lywodraethol gorfforaethol ByIG

Ym mhob achos, mae'r adroddiad yn amlinellu'r cyd-destun, yn cynnig dadansoddiad ac yn cyflwyno casgliadau ac argymhellion ar sail y dadansoddiad hwnnw. Mae'r crynodeb hwn yn crynhoi'r casgliadau gan fanylu ar yr argymhellion.

Mae **Pennod 3** yn adolygu prosesau strategol a chynllunio corfforaethol ByIG.

Mae **Pennod 4** yn adolygu ei drefniant mewnol a'r gweithgareddau y mae'n ymwneud â hwy o ran cyflawni ei amcanion statudol a strategol.

Mae **Pennod 5** yn adolygu materion trefn lywodraethol gorfforaethol.

Mae'r atodiadau'n cynnwys y canlynol:

**Atodiad 1**: crynodeb o gasgliadau'r cam cyntaf yn yr adolygiad;

**Atodiad 2**: cylch gorchwyl yr adolygiad;

**Atodiad 3**: restr o'r bobl/sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy ac a gynigiodd sylwadau i'r tîm adolygu;

**Atodiad 4**: llyfryddiaeth a rhestr o'r dogfennau a adolygwyd.

## 2.5 Cydnabyddiaeth

Dymuna'r tîm ymgynghorol ddiolch i'r holl bobl hynny a fu mor barod i rannu eu hamser a'u harbenigedd yng nghwrs y broses ymgynghori helaeth a gynhaliwyd yn ystod y ddau gam yn yr Adolygiad hwn. Rydym wedi ceisio adlewyrchu'r barnau a leisiwyd mewn ffordd mor gytbwys â phosibl.

Rydym yn ymwybodol bod y broses adolygu wedi gofyn llawer gan staff ByIG a'r Cynulliad Cenedlaethol fel ei gilydd ac yn enwedig gan Mr Gwyn Jones o FyIG a Mr Michael Trickey a Mrs Anne Morris o'r Cynulliad Cenedlaethol. Rydym yn werthfawrogol iawn o'u cymorth a'u cwrteisi di-feth drwy gydol yr astudiaeth.

# 3 SWYDDOGAETHAU CYNLLUNIO STRATEGOL A CHORFFORAETHOL

## CYD-DESTUN

### 3.1 Fframwaith statudol

Sefydlwyd ByIG fel corff statudol anadrannol ar 21 Rhagfyr 1993 o dan delerau Deddf yr Iaith Gymraeg, gyda chyfrifoldeb am *'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg'*.

Oddi ar 1 Gorffennaf 1999 mae ByIG yn atebol i Gynlluniad Cenedlaethol Cymru ac mae iddo statws Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad – corff cyhoeddus cenedlaethol a rhanbarthol sy'n gweithredu'n annibynnol ar Weinidogion ond y mae Gweinidogion yn gyfrifol amdano yn y pen draw. Mae ByIG yn derbyn y rhan fwyaf o'i gyllid drwy grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae ByIG yn gweithredu o fewn fframwaith rheoli a chynllunio ariannol a ddatblygwyd gan y Cynulliad. Fel y dywedir yn benodol yn Adran 4 o ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, bydd ByIG *'yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol neu arbennig a roir iddo gan yr Ysgrifennydd Gwladol [gan y Cynulliad Cenedlaethol o 1 Gorffennaf 1999], a bydd yn rhoi iddo'r gyfryw wybodaeth am ymarfer ei swyddogaethau ag y bydd yn gofyn amdani'.*

Rhoddir grym i'r Cynulliad i drosglwyddo neu i ddileu un neu ragor o swyddogaethau statudol ByIG o dan Adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Yn yr un modd, gall y Cynulliad drosglwyddo un neu ragor o swyddogaethau statudol cyrff cyhoeddus eraill a restrir yn Rhannau I a II Atodiad 4 y Ddeddf i ByIG.

### 3.2 Trefniant a strwythur

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg yn rhoi grym i'r Ysgrifennydd Gwladol (y Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg bellach) i benodi hyd at 15 aelod (gan gynnwys Cadeirydd) i FyIG. Gwneir penodiadau am gyfnod o dair blynedd, a gall y Gweinidog eu

hestyn. Telir aelodau am eu gwaith a disgwylir iddynt neilltuo dau ddiwrnod y mis ar gyfartaledd i FyIG. Disgwylir i'r Cadeirydd neilltuo dau ddiwrnod yr wythnos ar gyfartaledd i FyIG.

Ceir un ar ddeg o aelodau ar y Bwrdd ar hyn o bryd, gan gynnwys y Cadeirydd. Detholir aelodau er mwyn sicrhau cynrychiolaeth resymol gan y gwahanol rannau o Gymru a chan sectorau sy'n berthnasol i swyddogaeth ByIG.

Prif Swyddog Cyfrifo ByIG yw ei Brif Weithredwr. Cytunir ar nifer y staff gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ac mae'r Datganiad Rheoli yn pennu uchafswm arno o 43. Ni fu gan ByIG erioed yr adnoddau ariannol angenrheidiol i gyflogi'r nifer hwn. Ar hyn o bryd (Mehefin 2001) mae'n cyflogi 34 o staff, a phedwar o'r rhain yn staff rhan-amser. Trefnir y strwythur staffio yn ôl adrannau sy'n cyfateb yn fras i swyddogaethau statudol ByIG.

## 3.3 Swyddogaethau a gweithgareddau

Prif swyddogaeth ByIG, yn unol ag adran 3 (1) o'r Ddeddf, yw *'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg.'* Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon, mae adran 3 (2) yn diffinio tri phrif gyfrifoldeb:

- *'yn cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol* [y Cynulliad Cenedlaethol bellach] *ar faterion ynglŷn â'r iaith Gymraeg'*
- *'yn cynghori personau sy'n ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus ar y ffyrdd o weithredu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal'*;
- *'yn cynghori'r rheiny a phersonau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ynghylch defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu hymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru.'*

O dan adran 4 (1) o'r Ddeddf, rhoddwyd swyddogaethau penodol i FyIG, sy'n deillio o gyfarwyddebau'r Llywodraeth. Ar y sail honno y rhoddwyd cyfrifoldeb i FyIG gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd am gynnal trosolwg strategol o addysg a hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg, ac o 1 Ebrill 1997, rhoddwyd cyfrifoldeb i FyIG am ddyrannu grantiau i'r Eisteddfod Genedlaethol, Urdd Gobaith Cymru,

Mudiad Ysgolion Meithrin, Cyngor Llyfrau Cymru ac am hyrwyddo addysg yn yr iaith Gymraeg.

Mae Rhan II o'r Ddeddf yn rhoi manylion am y broses o baratoi ac adolygu cynlluniau iaith er mwyn gweithredu'r egwyddor y dylai cyrff sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd neu sy'n ymarfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur yng Nghymru, gan gynnwys rhai a leolir y tu allan i Gymru, drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal cyn belled ag y bo'n *'briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol'*. Gan fod awdurdodau addysg yn gyrff cyhoeddus, gofynnir iddynt hwythau gyflwyno cynllun datblygu addysg iaith Gymraeg a sicrhau ei fod ar gael yr un mor rhwydd â chynllun addysg gyfrwng Saesneg.

Felly, mae ByIG yn disgrifio ei swyddogaethau fel a ganlyn:

- **Hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg;**
- **Cynghori a dylanwadu ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg;**
- **Cychwyn ac arolygu'r broses o baratoi a gweithredu cynlluniau iaith;**
- **Dyrannu grantiau i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith;**
- **Cynnal trosolwg strategol o addysg Gymraeg.**

## 3.4 Fframwaith strategaeth a pholisi

Nid yw Deddf yr Iaith Gymraeg yn rhoi cyfrifoldeb penodol am gynllunio iaith i FyIG fel y deellir y term hwnnw erbyn hyn, ond mae adran 3 (3) yn dweud y *'caiff y Bwrdd wneud unrhyw beth sy'n dod o fewn perfformio'i swyddogaethau neu'n eu hyrwyddo'*. Ar sail y cymal hwn, ac er mwyn pennu fframwaith polisi ar gyfer ei weithgareddau a'i flaenoriaethau ariannol corfforaethol, aeth ByIG ati yn fuan wedi iddo gael ei sefydlu i lunio strategaeth gynhwysfawr i'r iaith Gymraeg.

Ym mis Rhagfyr 1995 cyhoeddodd *Strategaeth Amlinell i'r Iaith Gymraeg* fel dogfen ymgynghorol. Yn sgil rhaglen ymgynghori helaeth a meddylgar cynhyrchodd *Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg,* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 1996.

Mae'r ddogfen hon yn darparu fframwaith strategol cadarn ar gyfer gweithgareddau. Mae'n amlinellu pedair 'prif her':

- **Cynyddu niferoedd y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg;**
- **Darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith;**
- **Newid arferion defnyddio iaith, ac annog pobl i gymryd mantais o'r cyfleoedd a ddarperir;**
- **Atgyfnerthu Cymraeg fel iaith gymunedol.**

Mae'r ddogfen strategaeth yn mynd ymlaen i roi manylion am oblygiadau'r pedair her hyn mewn gwahanol sectorau ac i restru 20 Amcan, y mae gan rai ohonynt fwy nag un elfen. Mae'n cynnig mesurau penodol ar gyfer cyflawni pob Amcan gan ymateb i'r pedair her.

Bwriad y strategaeth hon yw ymdrin â'r cyfnod nes cyhoeddi data cyfrifiad 2011. Mae'n ymgadw rhag gosod targedau meintiol. Mae'n dal ei bod yn *'anodd gwneud hynny yn ystyrlon yn achos tair o'r pedair prif her'*. Mae'n nodi y gall ffactorau cymdeithasol ac economaidd sydd y tu hwnt i allu ByIG i'w rheoli effeithio ar ddefnyddio iaith. Felly *'mewn perthynas â Chymraeg fel iaith gymunedol, ni all y Bwrdd osod targed ar hyn o bryd'*.

Mae gan FyIG, wrth gwrs, swyddogaethau o dan y Ddeddf ac eraill a ddirprwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (a heb eu diddymu gan y Cynulliad Cenedlaethol), megis y gofyniad i weinyddu cynlluniau iaith ac i ddyfarnu grantiau neilltuol. Yn wahanol i rai o'r Amcanion yn y Strategaeth, gellir mynegi'r rhain yn nhermau cyflawni gweithgareddau penodol yn hytrach na'r effaith ar ddefnyddio iaith. Yn yr un modd, mae Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol ByIG yn

mynegi canlyniadau a thargedau yn bennaf yn nhermau gweithgareddau, sydd, yn eu tro, sail i'r llythyr cylch gwaith blynyddol a ddefnyddir i ddyrannu cyllid blynyddol i ByIG gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ym mis Hydref 1999, cynhyrchodd ByIG *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005*, i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd 1999. Er mai dogfen eirioli oedd hon yn bennaf a luniwyd i ddadlau o blaid cynnydd sylweddol mewn cyllid, fe'i cyflwynwyd oddi ar hynny fel strategaeth ByIG (yn enwedig yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant ar 2 Mai 2001, lle caiff ei disgrifio fel '*dogfen strategaeth gynhwysfawr* [ByIG]'). Nid yw'r ddogfen yn cyfeirio ond wrth basio at Strategaeth 1996 gan ei disgrifio ei hun fel *'esblygiad … Cynlluniau Corfforaethol blaenorol'.* Mae'n arwyddocaol yn yr ystyr ei bod yn ailddiffinio swyddogaethau ByIG yn nhermau cynllunio iaith gan nodi pedair elfen ar wahân:

- **Cynllunio caffaeliad**
  sy'n ymwneud â'r prosesau o gaffael sgiliau iaith (trosglwyddiad o fewn teuluoedd, drwy addysg, ayb);

- **Cynllunio defnyddio**
  sy'n ymwneud â chyfleoedd i ddefnyddio iaith (mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, yn y gwaith, ar yr aelwyd, ayb);

- **Cynllunio statws**
  sy'n ymwneud â ffyrdd o ddefnyddio'r iaith, er enghraifft, yn y llywodraeth a gweinyddu swyddogol;

- **Cynllunio corpws**
  sy'n ymwneud â datblygiad yr iaith ei hun (er enghraifft, cyflwyno termau newydd a safoni termau a ddefnyddir yn swyddogol) ac sydd hefyd yn cwmpasu ansawdd gwasanaethau cyfieithu a darparu cymorth technoleg gwybodaeth i'r iaith drwy feddalwedd i wirio sillafu a gramadeg, ayb.

Mae'r ddogfen yn nodi 12 targed. Mae'r rhain yn benodol, ac mae costau a blaenoriaethau ar eu cyfer. Mae cysylltiad rhyngddynt hefyd

a thargedau'r Cynllun Corfforaethol. Dadleuodd y *Weledigaeth* o blaid dyblu i bob pwrpas adnoddau ar gyfer gweithgareddau cymunedol, a chefnogaeth i Fentrau Iaith yn neilltuol, o drydedd flwyddyn y cynllun pum mlynedd ymlaen.

Derbyniwyd y ddogfen Gweledigaeth gan y Pwyllgor Addysg ac Hyfforddiant Ol-16 (fel yr oedd ar y pryd) gyda'r sylwadau a ganlyn:

*'Mae'r Pwyllgor yn croesawu dogfen Bwrdd yr Iaith Gymraeg* Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth 2000-5 *fel cyfraniad o bwys tuag at y dasg o lunio strategaeth i barhau i fywiogi'r iaith Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog. Mae'r Pwyllgor yn cytuno mai'r pedair prif her yw'r rheini a nodir yn y* "Crynodeb o Safbwynt Bwrdd yr Iaith Gymraeg" *ac mae'n frwd o blaid y pwyslais ar addysg gyfrwng Cymraeg fel y sail i adeiladu arni.*

*Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yn rhaid wrth strategaeth gydlynol, gyda thargedau tebyg i'r rhai a ddisgrifir yn nogfen y Bwrdd, i gyflawni tasg mor uchelgeisiol â chreu Cymru wirioneddol ddwyieithog.*

*Mae'r Pwyllgor yn frwd o blaid y nod o greu Cymru ddwyieithog fel nod cenedlaethol y gellir anelu ato, ac mae am weld gweithredu strategaeth effeithiol er mwyn sicrhau bod y nod hwn yn cael ei gyrraedd.*

*Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith fod yr Adran Weithredol yn derbyn dogfen y Bwrdd fel cyfraniad ac arweiniad o bwys o ran pennu blaenoriaethau ar gyfer gwaith y Bwrdd yn y dyfodol o fewn yr adnoddau y mae'r Cynulliad yn pleidleisio arnynt'.*

Mae llythyr cylch gorchwyl y Cynulliad Cenedlaethol at ByIG ar gyfer 2001-02 yn nodi bod yr Adran Weithredol wedi croesawu'r ddogfen hon *'fel arweiniad o ran pennu blaenoriaethau ar gyfer gwaith y Bwrdd yn y dyfodol o fewn yr adnoddau a ddarperir gan y Cynulliad.'* Mae'n awdurdodi ByIG i gyfeirio at y ddogfen yn ei gynlluniau corfforaethol a busnes. Mae'n darparu cynnydd sylweddol o ran cyllid hefyd ar gyfer gweithgareddau penodol yn 2001-02, gan gynnwys cynnydd o 50% ar gyfer Mentrau Iaith am yr ail flwyddyn yn olynol.

Mae Cynllun Corfforaethol 2000-01 i 2002-03 yn ffocysu ar weithgareddau y gellir eu cyflawni o fewn cyllidebau sylfaenol y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfnod o dair blynedd.

Seilir y Cynlluniau Gweithredol blynyddol ar flaenoriaethau a thargedau'r Cynllun Gweithredol a chytunir ar y rhain gyda'r Cynulliad Cenedlaethol bob blwyddyn.

Mae'n ofynnol i strategaeth pob CCNC gymryd i ystyriaeth gynllun strategol y Cynulliad, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2000 fel www.gwellcymru.com. Mae hwn yn amlinellu gweledigaeth hirdymor y Cynulliad o ran darparu gwasanaethau, perfformiad economaidd ac ansawdd bywyd gwell yng Nghymru gan roi manylion am y prif weithredoedd a thargedau a bennwyd i wireddu'r weledigaeth. Mae tair prif thema ynddo y disgwylir iddynt bennu'r broses gynllunio a gweithredu:

- Datblygiad cynaliadwy;
- Mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol; a
- Chyfle cyfartal

Ar dudalen 1 mae'r datganiad am ei weledigaeth yn cynnwys ymrwymiad i *'feithrin hunaniaeth unigryw ac amrywiol* [Cymru], *a manteision dwyieithrwydd, tra'n edrych yn hyderus tuag allan ac yn croesawu dylanwadau diwylliannol newydd'*. Nid oes a wnelo'r un o'r ugain gweithred benodol â'r iaith Gymraeg na sôn amdani'n benodol. Ar dudalen 22 y ceir yr unig gyfeiriad at yr iaith yn y 27 o feincnodau 'Cymru 2010', *'Dylai cyfran y boblogaeth gyfan sy'n gallu siarad Cymraeg fod wedi tyfu, a'r twf mwyaf ymhlith pobl ifanc'*. Ar dudalen 32, ymhlith y canlyniadau a ddymunir erbyn Mawrth 2003, yn yr adran a neilltuir i 'Gwell Ansawdd Bywyd' sonnir am y nod o *'hybu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth a chyfleoedd chwaraeon, a sicrhau eu bod ar gael yn rhwyddach'* ac am yr amcan o *'sefydlogi cyfran y siaradwtr Cymraeg; cynnal y twf yn nifer y bobl ifanc sy'n siarad yr iaith a chynorthwyo oedolion sy'n dysgu'r iaith'*.

Mae gwellcymru'n gosod targedau penodol, rhai i'w cyflawni o fewn tair blynedd (2000-2003) ac eraill dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae'r targedau ar gyfer yr iaith Gymraeg fel a ganlyn:

24. Cynyddu (o fan cychwyn o 43.8% yn 1996/97) canran y plant, yn ôl asesiad prifathrawon, sy'n siarad Cymraeg o gwbl.
25. Sefydlogi/cynyddu (o fan cychwyn o 18.7% yn 1991) canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n siarad Cymraeg (holl drigolion).

Gellir mesur y cyntaf o'r rhain bob blwyddyn drwy Ystadegau Addysg yng Nghymru (SETW) ond mae'r ail yn dibynnu ar ddadansoddi data'r Cyfrifiad ac felly bydd y canlyniadau a fydd ar gael erbyn 2003 yn adlewyrchu'r sefyllfa fel yr oedd ym Mai 2001.

## DADANSODDIAD

### 3.5 Prosesau cynllunio

Rhoddodd Deddf yr Iaith Gymraeg gryn sgôp i FyIG i ddehongli ei rôl o ran hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg. Nid oedd yn rhagnodol ond yn yr ystyr o'i gwneud yn ofynnol i FyIG weinyddu cynlluniau iaith Gymraeg ar gyfer cyrff yn y sector cyhoeddus.

Yn erbyn y cefndir hwn, rhaid talu teyrnged i FyIG am greu strategaeth drwy gydsyniad sydd er hynny yn gosod allan fframwaith realistig i warchod a datblygu'r iaith. Er nad ByIG a gyflwynodd y cysyniad o gynllunio iaith i Gymru, mae ei fodolaeth yn sicr wedi cyflymu'r broses o astudio ieiethoedd lleiafrifol a'r prosesau sy'n pennu eu tynged. Ceir ymhlith ei aelodau ddau o arbenigwyr mwyaf blaenllaw'r wlad yn y maes. Mae eu dylanwad ar esblygiad meddylfryd strategol o fewn ByIG yn amlwg mewn dogfennau strategol diweddar a chyhoeddiadau eraill.

Y ddogfen strategaeth ddiweddaraf, *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005*, yw'r diwygiad mawr cyntaf o'r strategaeth wreiddiol, er mai ei bwriad yw ategu'r ddogfen wreiddiol yn hytrach na'i disodli. Fe'i seilir ar bedwar math neilltuol o gynllunio iaith a ddisgrifir yn adran 3.4 uchod (cynllunio caffaeliad, cynllunio defnyddio, cynllunio statws a chynllunio corpws). Cynigir gweithredoedd o fewn pob un o'r pedwar, gosodir targedau a chynigir amserlenni.

Mae'n amlwg fod y strategaeth hon wedi ei gwreiddio mewn dadansoddiad cadarn o anghenion cynllunio iaith. Fodd bynnag, codwyd nifer o bryderon yn ein sesiynau ymgynghori ynglŷn â natur gweithdrefnau cynllunio strategol ByIG.

### 3.5.1 Cynwysoldeb y broses gynllunio

Enw ByIG ar ei ddogfen yn 1996 oedd *Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg*. Mae'r Strategaeth yn ei gwneud yn eglur mai strategaeth i FyIG yw hon, fel y saif, ond gobaith ByIG yw y bydd yn datblygu yn gynyddol yn strategaeth i'r iaith wrth i eraill gydweithio â ByIG ac â'i gilydd i gyflawni ei hamcan. Er enghraifft, dywed mewn perthynas â pholisi cymdeithasol ac economaidd y bydd yn *'ceisio defnyddio pob cyfle i ddylanwadu yn fwyfwy ar y rheini sy'n llunio polisïau economaidd a chymdeithasol a'u gweithredu'*.

Mae ByIG yn darparu ei strategaeth yn ogystal mewn cydweithrediad â nifer o bartneriaid, gan gynnwys y sefydliadau allweddol y mae'n darparu cyllid rheolaidd ar eu cyfer a'r rhwydwaith o Fentrau Iaith, a ystyrir yn brif asiantau iddo o ran gweithredu polisi ar lefel gymunedol.

Rydym yn derbyn mai prif fwriad y ddogfen *Cenhadaeth a Gweledigaeth* oedd gweithredu fel dogfen eirioli i geisio cyllid ychwanegol gan y Cynulliad Cenedlaethol. Er hynny, teimlir y dylai ByIG fod mewn sefyllfa, erbyn pumed pen-blwydd cyhoeddi ei strategaeth wreiddiol, i ymgymryd â diwygiad sylweddol drwy ymgynghori â'i bartneriaid, asiantaethau eraill a chynrychiolwyr ei fudd-ddeiliaid. Fe all y bydd adolygiad cyfredol y Cynulliad Cenedlaethol o'i bolisi iaith Gymraeg yn ddefnyddiol fel sbardun i FyIG adolygu ei rôl a'i swyddogaethau yn hyn o beth.

Er gwaethaf y cyfle hwn i ailwerthuso'r strategaeth hon yn drylwyr, teimlwn y dylai'r cynlluniau corfforaethol a gweithredol gynnwys gweithgareddau, targedau ac amcanion y sefydliadau y mae ByIG yn rhoi grantiau iddynt, ynghyd ag awgrymiadau

ynglŷn ag effaith gweithgareddau asiantaethau a dylanwadwyr allweddol eraill ar y canlyniadau tebygol.

Gallai hyn fodloni dyhead mynych cynrychiolwyr y sefydliadau partner ac eraill i fod yn fwy blaenllaw o ran helpu i lunio polisi ByIG. Gallai fod o gymorth hefyd o ran mynd i'r afael â'r ymdeimlad mewn rhai mannau fod ByIG wedi ymddieithrio o bryderon beunyddiol materion iaith yn y maes.

Gall dylanwadau megis mewnfudo ac allfudo, ffactorau economaidd ac ati, sydd y tu allan i allu'r Bwrdd i'w rheoli, arwain at newidiadau cyflymach a mwy dramatig na phrosesau graddol gynyddol y Bwrdd ei hun. Teimlwn y gallai helpu hefyd i sicrhau bod agweddau cynllunio iaith yn dod yn fwyfwy rhan o strategaethau CNCCau, awdurdodau lleol a chyrff tebyg eraill pe caent wahoddiad i ddarparu asesiad blynyddol o sut y mae eu gweithgareddau'n debygol o gael effaith ar yr iaith Gymraeg fel y gall ByIG gymryd datblygiadau arwyddocaol i ystyriaeth fel rhan o'i brosesau cynllunio ymlaen llaw. Efallai mai mater yw hwn y bydd y Cynulliad Cenedlaethol am ymdrin ag ef yn fwy manwl wrth adolygu ei strategaeth iaith Gymraeg ei hun.

## Argymhellion

1. Bod ByIG yn adolygu ei strategaeth yng ngoleuni adolygiad cyfredol y Cynulliad Cenedlaethol o'i strategaeth ei hun ar gyfer yr iaith Gymraeg ac yn cynhyrchu dogfen gynllunio ddiwygiedig sy'n gosod allan targedau penodol dros gyfnodau o bum mlynedd ar gyfer cynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg mewn sectorau ac ardaloedd arbennig.
2. Bod strategaeth ByIG yn dangos yn glir y mesurau penodol a fwriedir ar gyfer cynyddu defnydd o'r iaith yn y sectorau a'r ardaloedd perthnasol, er enghraifft, bydd y mesurau ar gyfer cefnogi siaradwyr newydd sy'n gadael addysg amser-llawn mewn ardaloedd lle mae mwyafrif y boblogaeth yn ddi-Gymraeg yn sylweddol wahanol i fesurau ar gyfer cefnogi cymunedau yn y broydd Cymraeg.

3. Bod ByIG yn gwahodd cyfraniad gan y bobl tuag at ddatblygu polisi a strategaeth drwy gynnwys sefydliadau partner (megis y rhai sy'n derbyn cymorth grant ganddo) a chynrychiolwyr sectorau allweddol (megis pobl ifanc a'r sector gwirfoddol) yn y broses ddatblygu.
4. Bod y strategaeth yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu parhaus gyda darpariaeth ar gyfer monitro perfformiad yn rheolaidd a mireinio gweithredoedd yng ngoleuni canlyniadau'r broses fonitro. (Gweler hefyd adran 3.5.5.)
5. Bod Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol, wrth iddo adolygu ei bolisi cyfredol, yn dal ar y cyfle hwn i ystyried datblygu strategaeth gynhwysol ar gyfer yr iaith Gymraeg sy'n ystyried effeithiau cyrff cyhoeddus eraill ar yr iaith, sy'n amlinellu sut mae cydlynu gweithredoedd o blaid yr iaith ac sy'n adnabod mecanweithiau i ddod â'r iaith yn fwyfwy i brif ffrwd gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru. (Gweler hefyd adrannau 4.7.2 a 4.7.3.)
6. Bod ByIG yn gofyn i asiantaethau eraill ddarparu asesiadau o effaith eu cynlluniau eu hunain ar yr iaith Gymraeg er mwyn galluogi ByIG i wneud darpariaeth briodol yn ei gynlluniau yntau i ddatblygu prosiectau cyfaddas neu i weithredu i ddatrys pethau.
7. Bod ByIG yn cyhoeddi astudiaethau ymchwil a chanlyniadau ar ei safle ar y we, gan nodi'r hyn y bwriada ei wneud a chan wahodd sylwadau gan y cyhoedd.

### 3.5.2 Perthynas y strategaethau i'r gweithrediadau

Mae cynlluniau corfforaethol a gweithgareddol ByIG yn eithriadol o ofalus wrth iddynt gysylltu eu holl weithgareddau arfaethedig gydag amcanion perthnasol y strategaeth wreiddiol. Nid yw'r cynnydd llinellol a wnaed o du'r strategaeth hyd at y gweithredu wedi ei gofnodi lawn mor amlwg, fodd bynnag.

Roedd tair allan o'r pedair prif thema yn y strategaeth yn ymwneud â chynyddu'r defnydd o'r iaith mewn amryw o ffyrdd. Mae *Gweledigaeth a Chenhadaeth* yn nodi pedwar math o

gynllunio iaith; un ohonynt yn unig sydd yn ymwneud â defnyddio iaith. Mae trefn fewnol BylG yn perthyn yn nes at y strategaeth ddiwethaf yn hytrach nag at yr un gyntaf. Parodd hyn i rai a ymgynghorwyd â hwy wneud y sylw fod BylG yn pryderu fwy ynghylch agweddau tuag at yr iaith na'r defnydd ohoni. Dirprwywyd llawer o'r pwyslais sydd ar ddefnyddio'r iaith i Fentrau Iaith ac i gymdeithasau sydd yn bartneriaid fel Urdd Gobaith Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol.

O ganlyniad i hyn, gellir cyfleu argraff o ddiffyg cysylltiad neu o leiaf o ddiffyg parhad, ynglŷn â rhai o'r gweithrediadau a wneir. Er enghraifft, mae BylG yn haeddiannol falch o'u cynllun llawn dychymyg ar gyfer trosglwyddo iaith o'r rhieni i'r plant drwy ddod â bydwragedd a'r wybodaeth a roddir wedi'r enedigaeth i mewn i'r broses o hyrwyddo. Argymhellwyd y weithred hon oherwydd y darganfyddiadau ymchwil sydd yn dangos fod yna gwir berygl y collir defnydd o iaith rhwng y naill genhedlaeth a'r llall, yn enwedig pan fo'r cartref yn gymysg ei iaith.

Er hyn, mae ymchwil hefyd yn dangos cyfnodau eraill yn natblygiad yr unigolyn pan fo pryder ynghylch colli iaith, er enghraifft, ymysg pobl yn eu harddegau a'r rhai sydd yn gadael addysg amser llawn drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardaloedd sydd, ar y cyfan, yn Saesneg eu hiaith. Mae hefyd ddylanwadau a gofnodwyd yn helaeth sydd yn peri colled iaith sylweddol mewn cymunedau.

Dengys ymchwil BylG fod data'r cyfrifiad sydd yn dangos sefydlogrwydd cymharol ymysg trigolion Cymru yn cuddio gostyngiad arwyddocaol yn y defnydd o'r iaith oherwydd na chyfatebwyd y llwyddiant a fu yn y cynnydd mewn dysgu'r iaith (yn benodol yn yr ysgolion Cymraeg eu cyfrwng), â chynnydd tebyg wrth gynllunio defnyddio'r iaith.

Mae *Gweledigaeth a Chenhadaeth* yn datgan fod *'Damcaniaeth cadw iaith leiafrifol yn awgrymu fod ar iaith leiafrifol angen swyddogaeth a defnydd ohoni a neilltuwyd. Er enghraifft, pan oedd, yn yr oes a fu, lle a neilltuwyd i'r Gymraeg yn y capeli a'r*

*eglwysi, cadwyd yr iaith.*' Fodd bynnag nid yw'n cynnig swyddogaeth a neilltuwyd i gymryd eu lle, ond mae'n awgrymu, (gyda fawr ddim gobaith am lwyddiant) gystadlu gyda dylanwadau byd eang y cyfryngau ac mae'n cynnig gweithrediadau marchnata i'r grwpiau targed a nodwyd er mwyn cynorthwyo gwrthsefyll y dylanwadau hyn.

Cynigir Mentrau Iaith fel *'y mwyaf cyffrous o ddatblygiadau cynllunio iaith'*. Ond tawedog ar y cyfan yw'r ddogfen ar ddisgwyliadau o'r Mentrau ynghylch cynyddu'r defnydd o'r iaith ac ni chynigir unrhyw dargedau penodol.

Byddai o gymorth ar gyfer cyflwyno strategau i, er enghraifft, y Cynulliad Cenedlaethol ac i'r cyhoedd pe bai fframwaith rhesymu'r gweithrediadau a'r gwariant a roir gerbron yn cynnwys sylwadau ar eu pwysigrwydd cymharol a'u blaenoriaeth. Ar hyn o bryd, gosodir y gweithrediadau yn nhrefn thema yn y cynlluniau corfforaethol a gweithredol fel petaent i gyd yn gyfartal o ran eu pwysigrwydd. Byddai'r cyflwyniad yn elwa hefyd o sefydlu dolenni cyswllt eglurach rhwng amcanion strategol ByIG a'r dulliau maent yn bwriadau eu defnyddio i'w cyrraedd.

At hyn dylid gwneud yn fwy amlwg gyfraniadau'r prif grantiau tuag at amcanion strategol (a thrwy oblygiad y gweithgareddau a gaiff eu cynnal gan y grantiau hyn) a hefyd dylid gwneud yn fwy amlwg y dylanwad a gaiff y gwaith sydd yn cael ei wneud ar hyn o bryd ynglŷn â chynlluniau iaith.

**Argymhelliad**

8. Bod ByIG yn ystyried mynegi yn eu cynlluniau corfforaethol a gweithredol y gweithrediadau arfaethedig a'r effaith a ddisgwylir oddi wrth y cymdeithasau a gynhelir ganddo drwy ddull grantiau, dylanwad rhagweladwy'r cynlluniau iaith a'r flaenoriaeth gymharol a roir i'w gweithgareddau a'u gwariant.

### 3.5.3 Gweithrediadau ac effeithiau

Mae cynlluniau corfforaethol a gweithrediadol ByIG yn gosod targedau clir ynghylch y gweithrediadau a gynigir. Mae'r Bwrdd yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau yn rheolaidd ac mae ganddo hanes da o gyrraedd y targedau a osodwyd.

Fodd bynnag bron yn ddieithriad mynegir y targedau hyn yn nhermau gweithrediadau y dylid ymgymryd â hwy ('cyflwyno gwybodaeth …', 'cynhyrchu pecyn …' 'cynhyrchu a rhannu gwybodaeth hyrwyddol …'). Credwn y byddai'n fwy ystyrlon yn nhermau strategol i gysylltu targedau'n fwy gydag effeithiau gweithred yn hytrach na gydag elfennau meintiol y weithred ei hun. Yn ein barn ni byddai hyn yn rhoi mwy o arwyddocâd i'r mesurau o effeithiolrwydd nag yw rhai o'r dangosyddion presennol. Cynigiwn rai awgrymiadau ar y modd y gellir adnabod yr effeithiau yn 3.5.5. isod.

**Argymhelliad**

9. Bod ByIG yn ei Gynlluniau Gweithredol, yn sylfaenu cyfeiriadaeth polisi a gosod targedau ar effeithiau arfaethedig yr ymyrryd yn hytrach nag ar y gweithrediadau eu hunain.

### 3.5.4 Ymatebolrwydd strategaethau ByIG i rai'r Cynulliad Cenedlaethol

Mae ByIG wedi bod yn ofalus iawn wrth gyfeirio ei Gynllun Gweithredu 2001-2002 at amcanion gwellcymru (gweler rhan 3.4 uchod).

Mae yna feysydd eraill lle y gellir disgwyl i hyrwyddo'r iaith gynorthwyo gwireddu strategaeth, ond ni wnaed y rhain yn amlwg a bu rhaid darllen hyn rhwng y llinellau. Ymhlith yr enghreifftiau amlwg yw: hyrwyddo'r gymuned, cynhwysiad cymdeithasol, a chyfle cyfartal. Byddai darganfod a oes yna gysylltiadau rhwng colli iaith a dirywiad mewn cydlyniad cymdeithasol yn y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn dirywio yn cynnig inni wybodaeth.

### 3.5.5 Cyfraniad ymchwil a gwerthuso tuag at strategaeth

Gwnaethpwyd a chomisiynwyd llawer o ymchwil gwerthfawr gan FyIG i'w gweithrediadau amrywiol, a'r gwerthuso ohonynt. Dengys y dogfennau cynllunio fod ymchwil a gwerthuso yn rhan o ddiwylliant ByIG, a nis gwnaed ar gyfer amcanion llywodraethu corfforaethol yn unig. Er hyn, gellir gwneud mwy er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddysgir o gloriannu yn arwain at newid mewn cynllunio strategol yn ogystal â newid mewn technegau gweithredol.

Arweiniodd astudiaeth werthfawr i agweddau o weithredu'r Eisteddfod Genedlaethol at leihau lefel cymorth grant ByIG i'r wyl, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth, wrth gynllunio'r ddogfen, o unrhyw ail-werthuso arwyddocaol o gyfraniad yr Eisteddfod tuag at gyfarfod ag amcanion strategol ByIG.

Yn yr un modd cododd astudiaeth ddiweddar o'r Cyngor Llyfrau Cymraeg faterion o bwys ond i bob golwg rhoddwyd hwn o'r neilltu hyd oni cheir penderfyniad oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol ar drefniadau ariannu yn y dyfodol.

Hyderir y bydd astudiaeth ddiweddar ar y Mentrau Iaith, a gododd faterion pwysig ynghylch perfformiad, strategaeth a chyfeiriad yn effeithio ar ddatblygiad un o'r dulliau ymyrryd mwyaf tyngedfennol yn y sector cymunedol yn y dyfodol. Yn yr un modd roedd goblygiadau pwysig ar gyfer polisi a dyrannu adnoddau yn codi o astudiaeth ddiweddar o waith ByIG ynghylch cynlluniau iaith

Waeth pa mor dyngedfennol y bo'r astudiaethau a'r gwerthuso hyn, ni ellir eu gwneud yn ddigon aml i roi arweiniad i gynllunio gweithredu ar lefel weithredol. Credwn y byddai modd datblygu system i fonitro effaith y gwahanol ddylanwadau ar ddefnyddio'r iaith ar sail barhaus, efallai drwy sefydlu panel o siaradwyr/dysgwyr Cymraeg mewn lleoedd strategol a allai gofnodi eu defnydd o'r iaith mewn dull sydd yn debyg i'r un a ddefnyddir i fonitro gwrandawyr radio a theledu. Byddai hyn yn caniatáu tracio effaith gweithredoedd penodol ar lefel leol iawn gan alluogi treialu dulliau gweithredu, eu hasesu, eu newid, ac yna eu dwyn i ardaloedd eraill gyda mwy o hyder a llai o amser i'w paratoi.

Hefyd, byddwn yn awgrymu mai cyfanswm y bobl/oriau y mae trigolion y wlad yn ymwneud â'r iaith yw mesurydd pwysicaf llwyddiant ByIG wrth wireddu eu cenhadaeth yn gyffredinol. Gellir blaenoriaethu hwn yn feintiol yn nhermau

- Yr oriau a dreulir yn siarad yr iaith (yn gymdeithasol, mewn gwaith, ac mewn gweithgareddau);
- Yr oriau a dreulir yn siarad yr iaith yng nghwrs addysg;
- Yr oriau a dreulir yn ymwneud â'r iaith yn oddefol (gwylio'r teledu, gwrando ar y radio, darllen, mynychu cyngherddau ac yn y blaen);
- Gall hyn gynnig sail ar gyfer ymyrryd o bosibl ac ar gyfer arwain y farn ynghylch cymharu gwerth am arian.

## Argymhellion

10. Bod ByIG yn llunio dull ar gyfer recriwtio paneli o siaradwyr/dysgwyr y Gymraeg a leolwyd yn strategol er mwyn penderfynu sut ac i ba raddau y bydd amrywiol ddylanwadau yn effeithio ar eu defnydd o'r iaith ac yn ôl hynny fesur dylanwad y gweithgareddau a wnaed gan FyIG

11. Bod ByIG yn datblygu cynllun o gloriannu ac o gadw cofnod er mwyn penderfynu gwerth am arian a blaenoriaethau ar gyfer adnoddau wrth ymyrryd i gefnogi'r iaith Gymraeg.

### 3.5.6 Dull cyfannol o weithredu

Ers i'r ddogfen strategaeth wreiddiol gael ei chynhyrchu, rhoddwyd swyddogaethau ychwanegol i FyIG, er enghraifft, gweinyddu grantiau sylweddol y cyn- Swyddfa Gymreig i sefydliadau allweddol. Mae pwysigrwydd y grantiau hyn i barhad bodolaeth y sefydliadau hyn yn amlwg yn cyfyngu ar ryddid ByIG wrth iddo weithredu yn nhermau adleoli ariannu ar gyfer blaenoriaethau eraill. Serch hynny, maent yn cynrychioli rhan bwysig o gymorth-drwy-grant blynyddol ByIG .

Yn yr un modd mae'r grantiau addysg mae ByIG yn eu gweinyddu yn ganran uchel o'r gwariant y mae ByIG yn gyfrifol amdano. Gellir dadlau, oherwydd iddynt gael eu hanelu'n bennaf tuag at ddysgu iaith, na chadarnhawyd yn ddigonol y dylanwad a gawsant ar y defnydd o'r Gymraeg.

Mae gwaith cynlluniau iaith y sector cyhoeddus yn swyddogaeth statudol ac mae'n mynd â chyfran uchel o amser y staff. Codwyd materion o bwys gan arolwg annibynnol diweddar o'r cynlluniau sydd yn berthnasol i ddylanwad cyffredinol y gweithgaredd hwn ar amcanion strategol ByIG.

Mae perygl i'r meysydd pwysig hyn o weithgaredd, a ddylanwadodd ar strwythur trefniadol ByIG weithredu ar sail ynysig. Mae'n bwysig ystyried holl swyddogaethau a gweithrediadau ByIG ar sail gyfannol ar gyfer amcanion cynllunio strategol a fod yr adeiladwedd yn caniatáu ffurfio cylchoedd o gyfrifoldeb o fewn y strwythur adrannol golofn bresennol er mwyn hybu dull aml-ddisgyblaethol tuag at gyfle a her mewn sector a rhanbarth.

Mater bach sydd yn perthyn i hyn yw semanteg cynllunio iaith. Datblygodd y maes cymharol newydd hwn o weithgaredd academaidd ei eirfa ei hunan er mwyn gallu disgrifio cysyniadau o fewn datblygiad ieithyddol. Mae'n amlwg ei fod

yn bwysig i arbenigwyr greu terminoleg briodol er budd manylder wrth ddatblygu polisïau ond gall y defnydd o eiriau cyfarwydd gydag ystyron newydd iddynt mewn cyd-destunau dieithr fod yn faen tramgwydd wrth gyfathrebu bwriad yn effeithiol i gynulleidfa leyg. Gall defnyddio termau megis 'corpws', 'pau', 'normal' a 'normaleiddio' heb eglurhad arwain at ddryswch ac, ar y gwaethaf, ymddieithrio ymysg aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn arbenigwyr.

### Argymhellion

12. Bod ByIG yn arolygu ei strwythur trefniadol er mwyn adlewyrchu dull sydd yn fwy cyfannol ynghylch ei brif swyddogaeth, sef hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.
13. Bod ByIG yn cymryd gofal wrth ddefnyddio termau technegol o faes cynllunio iaith wrth iddynt gyfathrebu gyda'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr.

## CASGLIADAU

### 3.6 Crynodeb o'r casgliadau

Mae gan FyIG fframwaith gynllunio gydlynol sy'n cysylltu cynlluniau corfforaethol a busnes yn ystyrlon i'r cynlluniau strategol. Mae targedau'n cael eu cyrraedd. Ond awgrymir bod angen cryfhau'r fframwaith mewn dwy ffordd:

- Mae'r cynlluniau a'r targedau'n tueddu i ganolbwyntio ar weithgareddau yn hytrach nag ar eu heffeithiau. Oherwydd hynny mae'n anodd ar adegau mesur eu llwyddiant yn erbyn nod statudol ByIG o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg;

- Mae'r cynlluniau strategol yn ceisio wynebu ystod eang o agweddau ar gynllunio ieithyddol, efallai oherwydd mai ByIG hyd yma yw unig ffynhonnell cynllunio strategol cenedlaethol ar gyfer yr iaith. Fodd bynnag, gyda chyllid o £6m a staff o 34, mae ByIG

yn un o'r CCNCau lleiaf ac y mae'n rhaid iddo wynebu dewision anodd ynglŷn â sut i wneud yr argraff fwyaf gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun yn adolygu ei bolisi tuag at yr iaith Gymraeg. Credwn fod hyn yn cynnig cyfle ardderchog i fabwysiadu strategaeth sy'n diffinio swyddogaethau ByIG yn glir, ynghyd â swyddogaethau cyrff eraill sydd â'u gweithgareddau'n effeithio ar yr iaith Gymraeg, ac sy'n gosod targedau clir a chyraeddadwy ar gyfer cynyddu defnydd o'r iaith. Fodd bynnag, ni fydd hyn o reidrwydd yn osgoi'r angen am ddewision caled; fe fyddai angen adnoddau sylweddol fwy na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i sicrhau cyrraedd y nod o Gymru ddwyieithog.

# 4 TREFNIADAETH FEWNOL A GWEITHREDIADAU

## CYD-DESTUN

### 4.1 Fframwaith Trefniadaeth

Trefnir ByIG yn fewnol yn saith adran:

1. **Adran Polisi a Chynllunio**
   Gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr, sydd hefyd yn arolygu gwaith yr adrannau Gweinyddu a Personél (gweler isod) yn Bennaeth arni, prif gyfrifoldebau'r adran yw:

   - Cydlynu datblygiad polisi gan gynnwys cynhyrchu Cynlluniau Strategol, Corfforaethol, a Gweithredol a rhan ByIG yn rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE.
   - Datblygu swyddogaethau cynllunio corpws ByIG.

2. **Adran Marchnata a Chyfathrebu**
   Dan y Pennaeth Marchnata, mae'r adran yn gyfrifol am:

   - waith marchnata a chysylltiadau cyhoeddus ByIG wrth gefnogi mwy o ddefnydd o'r iaith
   - weithgareddau hyrwyddo iaith yn y sector preifat:
   - gynnal a chadw gwefan ByIG a'r llinell cymorth.

3. **Adran y Sector Cyhoeddus a Gwirfoddol**
   Dan Bennaeth y Sector Cyhoeddus a Gwirfoddol, mae cyfrifoldebau yn cynnwys:

   - Gweinyddu swyddogaeth cynlluniau iaith cyrff cyhoeddus dan Ran II Deddf yr Iaith Gymraeg.

- Delio â chwynion a rhoi cyngor ar faterion statudol ac ymarferol sydd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.

- Cydlynu ymateb BYIG i amrywiol offerynnau statudol, papurau ymgynghori ayb.

## 4. Yr Adran Addysg a Hyfforddi

Dan Bennaeth yr Adran Addysg a Hyfforddi, mae'r prif gyfrifodebau yn cynnwys:

- Cadw trosolwg strategol ar addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yng Nghymru;

- Cydlynu'r broses o gyflwyno cynlluniau iaith i'r sector addysg;

- Gweinyddu grantiau addysg BYIG;

- Hyrwyddo dysgu Cymraeg i oedolion;

- Ar y cyd â'r Adran Farchnata, cyflwyno mentrau hyrwyddo a marchnata i ysgolion a cholegau.

- Cyd gysylltu â grwpiau pwyso a grwpiau ymgynghorol addysg Gymraeg

## 5. Adran Grantiau

Dan Bennaeth yr Adran Grantiau, mae'r prif gyfrifoldebau'n cynnwys:

- Gweinyddu grantiau mawr BYIG i sefydliadau a gefnogid gynt gan y Swyddfa Gymreig;

- Gweinyddu'r cynllun grantiau bychain i hyrwyddo cyflwyno arferion dwyieithog yn y sectorau preifat a chyhoeddus;

- Gweinyddu cefnogaeth ariannol BYIG i'r Mentrau Iaith seiliedig ar y gymuned.

## 6. Yr Adran Gyllid

Dan y Prif Swyddog Cyllid, mae'r adran yn gyfrifol am:

- reoli cyllid BYIG yn unol â'r memorandwm ariannol;
- rheoli swyddogaethau cyfrifo gan gynnwys adrodd i'r Bwrdd a'r Adran Noddi;
- gweinyddu taliadau, derbynebau a gwasanaethau ariannol a is-gontractwyd.

## 7. Adran Weinyddu a Phersonel

Yn y pendraw yn atebol i'r Dirprwy Brif Weithredwr, rhedir yr adran gan y Prif Swyddog Gweinyddol ac mae'n gyfrifol yn bennaf am:

- reoli swyddfa, materion sefydliad a phersonel;
- gwasanaethu cyfarfodydd Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli.

Dangosir cyllid gwariant ByIG am y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn y tabl isod. Fe'i ddadansoddir yn ôl gweithrediadau a gwariant craidd adrannau.

| **Cyllid Gwariant ar Weithrediadau 2000-2001** | **£000** | |
|---|---|---|
| Cynllunio Caffaeliad (yn cynnwys grantiau i awdurdodau addysg lleol) | 2,917 | 46.08 |
| Cynllunio Defnyddio (yn cynnwys grantiau i sefydliadau trydydd parti) | 1,878 | 29.67 |
| Cynllunio Statws | 162 | 2.56 |
| Cynllunio Corpws | 126 | 1.99 |
| Is-gyfanswm | 5,083 | 80.30 |

| **Cyllid Adrannau 2000-2001** | **£000** | |
|---|---|---|
| (Costau Craidd) | | |
| Addysg a Hyfforddiant | 231 | 3.65 |
| Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol | 282 | 4.45 |
| Grantiau | 126 | 1.99 |
| Sector Preifat a Marchnata | 179 | 2.83 |
| Polisi | 166 | 2.62 |
| Adran y Prif Weithredwr | 131 | 2.07 |
| Aelodau | 112 | 1.77 |
| Is-gyfanswm | 1,227 | 19.38 |

Yn ogystal â'r uchod, caniatawyd gwariant cyfalaf o £20,000 (0.32%) yn gwneud cyfanswm cylliad gwariant y Bwrdd am y flwyddyn i £6,330,000.

## DADANSODDIAD

Mae'r dadansoddiad yn dilyn gweithgareddau BYIG fel y'u cyflawnwyd gan adrannau'r sefydliad.

### 4.2 Polisi a Chynllunio

Adolygwyd swyddogaethau polisi a chynllunio'r adran yn llawn ym Mhennod 3. Mae gan yr adran swyddogaeth ychwanegol mewn perthynas â Chynllunio Corpws.

Am ganrifoedd nid oedd angen i'r iaith Gymraeg ymateb i gymhlethdodau gweinyddu gwladwriaeth fodern, ond, fel y defnyddir mwy a mwy ar y Gymraeg mewn gweinyddiad cyhoeddus ac yn y system gyfreithiol, mae angen cynyddol am derminoleg newydd ac am i'r derminoleg honno gael ei defnyddio'n gyson a'i deall yn gyffredinol. Mae ByIG wedi arwain yr ymateb i'r angen hwn drwy helpu i sefydlu safonau ymhlith y nifer cynyddol o gyfieithwyr trwy weithio gyda chyrff academaidd a phroffesiynol i ddatblygu terminoleg, trwy sefydlu llinell gymorth ffôn i ymdrin ag ymholiadau a thrwy nifer o fentrau eraill megis cefnogi Cymraeg Clir. Elfen o'r

gwaith hwn a werthfawrogir yn eang yw cyflwyno Gwiriwr Sillafu a Gramadeg Cymraeg ar gyfrifiadur sydd wedi arwain at ddefnydd mwy hyderus o'r iaith yn y gweithle ac mewn sawl amgylchedd arall. Adeiledir ar hwn pan gaiff ei fabwysiadu a'i ddatblygu gan Microsoft i'w gynnwys yn ei gyfres o raglenni swyddfa yn y dyfodol agos.

Mae llawer i'w wneud eto a charem weld menter arbennig i ddatblygu hyblygrwydd yr iaith Gymraeg mewn meysydd newydd, megis e-bost a negeseuon testun gan blant a phobl ifanc.

## 4.3 Marchnata a Chyfathrebu

Mae'n bosib fod teitl yr adran hon yn gamarweiniol, yn y modd y mae'n awgrymu bod ei chyfrifoldeb wedi ei gyfyngu i hyrwyddo BYIG ei hunan. Ei rôl mewn gwirionedd yw hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn arbennig yn y meysydd tyngedfennol hynny lle mae dan bwysau cystadleuol gan ddylanwadau diwylliannol eraill.

Gellid cymharu ei chyllideb flynyddol â chyllideb hysbysebu atyniad twristaidd canolig ei faint. Mae'n rhaid iddi gystadlu mewn marchnadoedd targed megis personau yn eu harddegau ac oedolion ifanc sy'n agored i ddeniadau sector preifat byd eang lle y gall cyllid marchata un wefan neu gêm gyfrifiadur fod yn fwy na holl wariant blynyddol ByIG.

Ymatebodd drwy gynhyrchu ymgyrchoedd a dargedwyd yn dda, megis y fenter i annog dwyieithrwydd mewn cynllunio, yr ymgyrch bosteri i godi morâl yn yr ysgolion a phecyn adnoddau i annog rhai sy'n gadael yr ysgol i ymdrin â rhai o weithgareddau eu dull newydd o fyw, megis agor cyfrif banc, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y mae hefyd wedi arwain y ffordd gyda gwaith BYIG yn y sector preifat trwy geisio cytundebau â siopau cadwyn y Stryd Fawr i ddarparu'n ddigonol ar gyfer eu cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith.

Mae tystiolaeth fod y mentrau hyn wedi cael derbyniad da ac wedi dwyn clod i FYIG am dorri tir newydd. Fodd bynnag, o gofio pwysigrwydd y sector preifat i ddefnydd bob dydd o'r iaith, yn arbennig ym maes manwerthu ac adloniant bydd yn anodd mesur effaith yr ymyriadau bach hyn.

O ystyried y bwlch sydd rhwng adnoddau marchnata ByIG a'r pwysau sy'n angenrheidiol i greu argraff ar wlad gyfan, gallai'r adran ystyried gweithredu mentrau peilot (er enghraifft, gyda marchnad neu ganolfan manwerthu fawr, gwesty neu ganolfan hamdden) mewn ardal lle mae defnydd helaeth ar y Gymraeg, arwain at ddigon o gyhoeddusrwydd i annog y sector preifat i fabwysiadu'r methodolegau ar raddfa ehangach. Mae'r ffaith fod arwyddion dwyieithog yn awr yn rhan o'r brîff cynllunio ar gyfer pob cadwyn archfarchnad fawr yng Nghymru yn tystio i rym perswad o'r fath.

Un gwelliant isel ei gost allai helpu i atgyfnerthu'r argraff fod gan BYIG rôl y tu hwnt i'r sector preifat ac addysg, fyddai ychwanegu cysylltiadau o dudalennau cartref gwefan ByIG i sefydliadau, cwmniau a chonsortia eraill sydd yn defnyddio'r iaith Gymraeg i farchnata ac mewn gweithgareddau (er enghraifft, S4C, Urdd Gobaith Cymru, Yr Eisteddfod Genedlaethol, Sefydliadau Twristiaeth a masnachwyr ayb).

Byddai'r arbenigedd yn yr adran farchnata yn werthfawr mewn llawer prosiect aml-ddisgyblaeth. Efallai yr hoffai BYIG ystried sut y gellid ei ddefnyddio i finiogi gwaith Mentrau Iaith a ffocws rhai o'r cyrff a gynorthwyir â grant.

## 4.4 Adran y Sector Cyhoeddus a Gwirfoddol

Y pwer mwyaf sylweddol a roddwyd i FyIG trwy Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 oedd i hysbysu cyrff cyhoeddus o'u dyletswydd dan Ran II o'r Ddeddf i baratoi *'cynllun yn nodi y mesurau y mae'n bwriadu eu cymryd…ynglŷn â defnydd o'r iaith Gymraeg yng nghyswllt darparu…gwasanaethau'.* Pan sefydlwyd ef, cynhyrchodd ByIG ganllawiau drafft ar gyfer paratoi cynlluniau iaith, ymgynghorodd yn eang, ac yna ym Mawrth 1996, cyhoeddodd *Cynlluniau Iaith Gymraeg: eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.*

Ni ddisgwylid erioed y ceid unffurfiaeth yn lefel y gwasanaeth y disgwylid i'r cyrff perthnasol ei gyflenwi trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Adran 5(2) Rhan II Deddf yr Iaith Gymraeg yn datgan mai'r

*'pwrpas yw … rhoi grym … i'r egwyddor y dylid trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail cyfartal wrth redeg busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder'*. Fodd bynnag, mae'r frawddeg uchod yn cynnwys y cyfyngiad arwyddocaol canlynol: *'… cyn belled ag y bo'n briodol i'r amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol …'*. Cyfyngwyd rhyw gymaint ar y cafeat hwn yn ystod ail ddarlleniad mesur yr Iaith Gymraeg gan Iarll Ferrers, yn siarad ar ran y Llywodraeth, fel a ganlyn: *'… ni fydd cyrff cyhoeddus yn gallu edrych yn oddrychol ar yr hyn a ystyriant. Bydd yn rhaid i'r dehongliad fod yn wrthrychol ymhob achos. Bydd angen i FYIG fod wedi cytuno arno a bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus fedru dangos eu bod wedi talu sylw i ganllawiau'r Bwrdd'*.

Dengys hyn mor anodd y bu i FyIG lywio cwrs rhwng yr hyn y gallai siaradwyr Cymraeg ei ystyried fel hawl sylfaenol dinasyddiaeth a'r hyn y gallai cyrff cyhoeddus, sydd wedi hen arfer a gweithredu'n uniaith Saesneg, ei ystyried yn 'amhriodol ac anymarferol'. Nid yw felly'n syndod fod yr adran hon yn gyfrifol am un o lwyddiannau mwyaf gweladwy ByIG ers ei sefydlu, ac hefyd yn destun y rhan fwyaf o'r feirniadaeth a anelwyd at ByIG yn ein hymgynghoriadau.

Mae gweinyddu yn y sector cyhoeddus a gweithredu prosesau cyfreithiol yn cynrychioli, gellid dadlau, y baromedr pwysicaf o statws iaith. Er gwaethaf deddfau iaith blaenorol, hyd at Ddeddf yr Iaith Gymraeg ym 1993, roedd statws yr iaith Gymraeg mewn perthynas â'r Saesneg yn isel iawn. Er bod yna fynydd eto i'w ddringo cyn y bydd yr iaith Gymraeg wedi ei sylfaenu'n gadarn yn niwylliant gweinyddu cyhoeddus ac yn y llysoedd barn yng Nghymru, bu cynnydd clir a gwerthfawr hyd yma.

Ceisiodd ByIG fod yn deg a phragmataidd yn ei agwedd tuag at gynlluniau iaith, gan ddisgwyl perfformiad sylweddol uwch gan, er enghraifft, awdurdod lleol mewn ardal lle siaredir Cymraeg yn bennaf, na gan un mewn ardal lle siaredir Saesneg yn bennaf. Ar y cyfan, ymatebodd cyrff y sector cyhoeddus yn foddhaol i rybuddion ByIG iddynt baratoi a gweithredu cynlluniau. Mae BYIG yn amcangyfrif, allan o gyfanswm o ryw 3,300 o gyrff cyheddus a chyrff y Goron a allai syrthio oddi mewn i gwmpas y Ddeddf, bod tua 350 yn flaenoriaeth oherwydd eu swyddogaethau neu eu cyswllt parhaus â siaradwyr Cymraeg. Erbyn diwedd 2000-2001, cymeradwywyd

157 cynllun, gyda 45 cynllun arall yn cael eu paratoi i'w cyflwyno i FyIG. O'r 159 o gynlluniau a gymeradwywyd, roedd 51 dros dair oed ac angen eu hadolygu a'u diweddaru. Mae ByIG yn amcangyfrif y gallai nifer y cynlluniau wedi eu cymeradwyo godi i tua 250 o fewn y ddwy neu dair blynedd nesaf, a bwrw y ceir adnoddau digonol i barhau i gyhoeddi rhybuddion i gyrff eraill i baratoi cynlluniau.

Mae astudiaeth ddiweddar, *Monitro a Gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg*, M E Kermode, Ionawr 2001, yn ymdrin yn drylwyr â'r materion a godwyd yn ein hymchwil ni ein hunain. Mae ei argymhellion ar hyn o bryd dan ystyriaeth gan FyIG ac felly nid oes angen ei hatgynhyrchu'n fanwl yn yr arolwg hwn. Fodd bynnag, mae gan y themâu bras canlynol oblygiadau ar gyfer effeithiolrwydd strategol BYIG yn y dyfodol:

### 4.4.1 Adnoddau

Tarddodd llawer o'r rhwystredigaeth oedd yn amlwg yn ein trafodaethau ar y mater hwn o'r oedi a fu yng ngweinyddu'r cynllun, yn arbennig mewn monitro ac ymateb i adroddiadau blynyddol gan y cyrff 'cwsmer'. Dwysawyd hyn gan y ffaith fod y cyrff hyn yn disgwyl ymateb awdurdodol, ar lefel uchel. Gwerthfawrogwyd cyngor ac arweiniad uwch aelodau yr adran yn fawr iawn. Teimlai swyddogion lefel is, yr ymddiriedwyd iddynt y dasg o weithredu cynlluniau iaith mewn rhai cyrff, fod arnynt angen cefnogaeth lefel uchel swyddogion ByIG i sicrhau bod parch digonol yn cael ei dalu i'w gwaith o fewn eu hawdurdodau eu hunain.

Daeth astudiaeth ddiweddar i'r casgliad, bod *'anawsterau sylweddol yn codi parthed gallu'r Bwrdd i roi adborth cyflym ac ystyrlon i gyrff cyhoeddus ynglŷn â'u Hadroddiadau Monitro blynyddol. Mae'r anawsterau hyn yn gwrthweithio'r gwaith ardderchog yr ymgymerwyd ag ef gan swyddogion y Bwrdd i ddatblygu a chymeradwyo Cynlluniau ac i'w gweithredu ar hyn o bryd. Prif achosion yr anawsterau hyn yw nifer yr Adroddiadau Monitro (200/250 y flwyddyn), nifer y gweithwyr gweithle (4 ar hyn o bryd)* [Ionawr 2001] *a chyfrifoldebau a chystadleuaeth oddi wrth flaenoriaethau eraill y gweithle'*.

Mae'r Adroddiad yn dod i'r casgliad bod *'adnoddau a ddyrannwyd ar hyn o bryd i Adran y Sector Cyhoeddus a Gwirfoddol yn annigonol i gyfarfod â'u holl gyfrifoldebau, yn arbennig parthed monitro Cynlluniau a rhoi adborth cyflym ac effeithiol. Bydd y potensial ar gyfer adnoddau ychwanegol yng nghyllid 2001-2001 yn dal i adael yr Adran mewn sefyllfa lle byddant yn annhebygol o gyfarfod â'u holl gyfrifoldebau. Bydd angen adolygu ac ystyried yn ofalus blaenoriaethau, llwyth gwaith a fframwaith gweithredol yr Adran wrth osod amcanion a thargedau ar gyfer 2001-2002'.*

Cytunwn â holl gasgliadau eraill yr adroddiad gwerthfawr hwn. Mae'n dangos yn glir bod yr adnoddau presennol yn annigonol ac y bydd y galw'n cynyddu wrth i ragor o gynlluniau iaith gael eu cymeradwyo. Mae hefyd yn dangos bod y sefyllfa yn wrth-gynhyrchiol yn yr ystyr ei bod yn bygwth y berthynas gyfeillgar a ddatblygwyd yn ofalus cydrhwng ByIG a'r cyrff y mae'n monitro eu cynlluniau. Golyga hefyd bod staff adrannol yn cael eu gorfodi fwy fwy i fod yn adweithiol mewn sefyllfa amddiffynnol tra eu bod yn llawer mwy effeithiol mewn rôl rhag-weithiol.

Cyfrifoldeb cyfyngedig sydd i'r astudiaeth mewn perthynas â chyfrifoldebau cyffredinol yn Adran y Sector Cyhoeddus a Gwirfoddol, sydd â swyddogaethau pwysig eraill ym maes polisi cyhoeddus. Nid oes unrhyw arwyddion ar hyn o bryd y bydd adnoddau digonol ar gael ar gyfer y swyddogaeth hon felly bydd angen i FYIG wneud penderfyniadau anodd i gynnal hygrededd ac effeithiolrwydd yn y meysydd hyn.

### 4.4.2 Pa mor bwysig yw'r gwaith hwn?

Mae consensws clir bod y gwaith ar gyflwyno cynlluniau iaith wedi arwain at ganlyniadau gweladwy a gwerthfawr, o ran codi statws yr iaith Gymraeg a chynnig cyfleoedd ychwanegol i'w defnyddio hi. Mae dwy farn ynghylch gwerth parhau i ddatblygu cynlluniau iaith sydd eisoes mewn bod

Mae'r gyntaf yn honni mai gostwng wnaiff y buddiannau o barhau datblygiadau. Mae'n annhebygol y bydd gwelliannau

cynyddol-ddibwys dros amser yn cydbwyso â budd cychwynnol cyflwyno gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Mae'r ail yn honni bod angen dwyn pwysau parhaol er mwyn osgoi lleihau neu roi'r gorau i'r cynnydd a sicrhawyd hyd yn hyn. Mae'r farn hon yn honni hefyd bod nifer o'r cynlluniau iaith wedi canolbwyntio hyd yma ar brosesau mewnol oddi mewn i'r cyrff dan sylw ac nad ydynt wedi datblygu'n ddigonol y swyddogaeth sydd gan lawer o gyrff cyhoeddus i gynnal a datblygu'r iaith Gymraeg yn ehangach. Gallai rhagor o waith gan FyIG mewn partneriaeth â chyrff o'r fath gael argraff ychwanegol sylweddol ar ddefnydd iaith a chefnogaeth i gymunedau Cymraeg eu hiaith.

Mae achos cryf i FyIG adolygu'r meysydd lle gallai'r elw o'i ymdrechion parthed cynlluniau iaith fod yn lleihau, ac i nodi partneriaid sector cyhoeddus a allai fod yn fwy defnyddiol, lle gallai ymdrechion parhaus a mwy dwys dalu ffordd.

Yn achos y cyntaf, efallai y byddai'n werth i FyIG ystyried gwneud trefniant gyda chorff archwilio cydnabyddedig arall fel Menter Gwerth Gorau i fonitro'n sylfaenol y cynlluniau iaith Gymraeg mewn perthynas â'i swyddogaethau eraill, sydd eisoes yn cynnwys elfen o archwilio cydymffurfio gyda'r cynlluniau.

Sylweddolwn nad yw hwn o angenrheidrwydd yn fesur cost-effeithiol gan fod raid talu am waith, pwy bynnag sy'n ei wneud. Fodd bynnag, efallai y byddai'n gwneud defnydd gwell o adnoddau staff arbenigol prin i ganolbwyntio ar feysydd lle gellid gwneud cynnydd ychwanegol mwy arwyddocaol na thrwy ail-ymweld â chyn lwyddiannau sydd â fawr o le i ddatblygu ymhellach. Opsiwn arall fyddai cyfyngu monitro i sampl bychan o gynlluniau bob blwyddyn.

Dylid nodi hefyd nad prif nod cynlluniau iaith yw rhoi lefel gyfyngedig o wasanaeth i siaradwyr Cymraeg. Yng ngeiriau'r astudiaeth a ddyfynnwyd eisoes uchod, *'y mae i osod cydraddoldeb ieithyddol yn y "prif lif" fel rhan o gynlluniau a*

*chyflenwi gwasanaethau'.* Yn y cyswllt hwn, mae'n gyfrifoldeb clir ar y Cynulliad Cenedlaethol i gymryd arweiniad drwy sefydlu'r iaith Gymraeg yn gadarn yn ei weinyddu, i osod esiampl o'r arfer gorau ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau ei nôd o sicrhau Cymru wirioneddol ddwyieithog.

### 4.4.3 Galwadau Eraill ar yr Adran

Dangosodd ein hymgynghoriadau feysydd eraill o fewn gweinyddu cyhoeddus lle y teimlir y dylai ByIG fod yn gwneud mwy o argraff. Mae asiantaethau eraill yn gwario symiau sylweddol o arian cyhoeddus ar fesurau sy'n effeithio ar gynaladwyaeth yr iaith Gymraeg. Achos amlwg yw Awdurdod Datblygu Cymru sydd wedi targedu siaradwyr Cymraeg a chymunedau gwledig ar gyfer cymorth a anelwyd at ddatblygu eu potensial economaidd. Mae'r gallu gan bron pob corff arall tebyg i effeithio ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg mewn rhyw fodd neu'i gilydd trwy weithgaredd a gyllidwyd ag arian cyhoeddus.

Byddai'n amlwg yn fanteisiol i ddatblygu mentrau ar y cyd gydag asiantaethau o'r fath i sicrhau agwedd gytûn at ddosbarthu arian cyhoeddus ac i wneud y mwyaf o effaith buddsoddi arian cyhoeddus yn yr ardaloedd a dargedwyd.

Dangoswyd yn ein hymgyngoriadau y gallai ByIG fod wedi manteisio'n fwy ar y cyfleoedd a gynigwyd gan gronfeydd strwythurol yr UE i hyrwyddo i genhadaeth yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae ByIG yn siomedig na fu ei ymdrechion yn y cyswllt hwn yn fwy llwyddiannus.

Dylai ByIG ystyried a fyddai'n fuddiol ail-strwythuro gwaith Adran y Sector Cyhoeddus a Gwirfoddol i wneud y defnydd gorau o'i adnoddau prin iawn mewn ardaloedd blaenoriaeth.

### Argymhellion

14. Y dylai BYIG drafod gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i ba raddau y gall barhau i gychwyn a monitro cynlluniau iaith

Gymraeg cyrff cyhoeddus ac archwilio dulliau o ddatganoli agweddau ar y broses fonitro i gyrff archwilio eraill priodol.

15. Y dylai BYIG a'r Cynulliad Cenedlaethol weithio yn glos gyda'i gilydd i ddatblygu diwylliant cadarnhaol o gefnogaeth i'r iaith Gymraeg ym mhob maes gweinyddu a datblygu cyhoeddus.

## 4.5 Adran Addysg a Hyfforddiant

Yr adran hon sydd â'r swyddogaeth sydd wedi ei diffinio'n lleiaf clir dan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pwer i FyIG i roi grantiau ac i fynnu cynlluniau iaith gan gyrff cyhoeddus, yn cynnwys cyrff ariannu addysgol, awdurdodau addysg (fel rhan o swyddogaeth cynghorau sir a bwrdeistref) ac ysgolion a cholegau unigol. Fodd bynnag, rhoddwyd swyddogaeth bellach i BYIG drwy'r pwerau a roddwyd gan y Ddeddf i'r Ysgrifennydd Gwladol *'i gynnal trosolwg ar addysg yn yr iaith Gymraeg'*. Ni ddiffiniwyd y cyfrifoldeb hwn yn llawn erioed ac ni roddwyd pwerau na chyllid ychwanegol i BYIG i'w alluogi i'w gyflawni. Yn 1996-97 rhoddwyd i BYIG y swyddogaeth o weinyddu yr hyn fu gynt yn grant Swyddfa Gymreig ar gyfer agweddau ar addysg yn yr iaith Gymraeg, ynghyd â grantiau mawr i sefydliadau allweddol (a drafodir yn fwy manwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad).

### 4.5.1 Trosolwg strategol ar addysg Gymraeg

Mae'n amlwg bod angen i FyIG gadw golwg gyffredinol ar addysg Gymraeg yn yr un modd ag y mae angen iddo gadw golwg gyffredinol ar bob sector sy'n defnyddio'r Gymraeg er mwyn datblygu ei gynllunio strategol ei hun. Ond cafodd hyn ei wneud yn swyddogaeth ychwanegol benodol ac mae hynny'n awgrymu bod gan y Bwrdd rôl i ddylanwadu ar y ffordd y mae cyrff eraill ym maes addysg yng Nghymru'n mynd ati i gyflwyno addysg Gymraeg, addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysg ddwyieithog. O safbwynt rhesymegol, dylasai fod gan y cyrff eraill hynny eu trefniadau hwy eu hunain a'r rheini wedi'u haddasu'n briodol dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu eu cyfrifoldebau i'r Bwrdd gyda golwg ar addysg Gymraeg.

Mae'r diffyg eglurder hwn ynghylch faint o rym sydd ganddo a beth yw cwmpas y cyfarwyddyd wedi'i gwneud hi'n anodd i'r Bwrdd reoli neu hyd yn oed ddylanwadu mewn ffordd sylweddol ar gyfeiriad addysg Gymraeg er, efallai, mai addysg yw'r elfen bwysicaf o ran cynllunio iaith ac, yn sicr, dyma'r maes lle defnyddir yr elfen fwyaf o gyllid cyhoeddus.

Mae'n bwynt pwysig, nid yn unig oherwydd bod targedau gwellcymru'n dibynnu i raddau helaeth ar lwyddiant caffael iaith drwy gyfrwng addysg ond hefyd oherwydd bod twf addysg trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ardaloedd sydd ar y cyfan yn ardaloedd Saesneg eu hiaith yn ychwanegu at gyfrifoldeb y Bwrdd i annog mwy o ddefnydd o'r iaith y tu allan i'r amgylchedd addysg ffurfiol. Yn wir, mewn sawl achos, mae a wnelo'r rheswm y mae rhieni'n dewis addysg Gymraeg ei chyfrwng i'w plant gymaint os nad mwy â'i henw rhagorol am gyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol ag â'i heffeithlonrwydd ym maes caffael iaith.

Mae hyn yn gosod mwy o gyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau ychwanegol ar gyfer y grwp cynyddol hwn o ddinasyddion yng Nghymru, nid yn unig ar FyIG ei hun ond hefyd ar ei bartner-fudiadau, megis y Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru a'r Mentrau Iaith. Mae i'r cyfrifoldeb ychwanegol hwn oblygiadau sylweddol, yn enwedig o ran cynllunio'r gweithlu ar gyfer datblygu gwasanaethau Cymraeg yn yr ardaloedd hyn, nid yn unig ym maes addysg bellach ac uwch, ond yn y gymuned drwyddi draw. Fe allai hyn arwain at dyndra gyda golwg ar agweddau darparu adnoddau ar gyfer caffael iaith, megis dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion Saesneg eu cyfrwng a dysgu'r Gymraeg i oedolion lle mae angen ymdrech fawr i wella effeithlonrwydd meysydd hyn; felly, mae angen trosolwg i oleuo'r broses llunio polisi yn y maes hollbwysig hwn.

Mae bwlch yma rhwng maint y cyfrifoldeb a'r pwerau a'r adnoddau sydd ar gael i FyIG i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'n fater nad oes modd i'r Bwrdd ei ddatrys ar ei ben ei hun.

Byddai'n gymorth i bob asiantaeth berthnasol petai modd datrys hyn yng nghyd-destun yr adolygiad sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar y gweill ar ei bolisi tuag at yr iaith Gymraeg.

### Argymhelliad

16. Bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno gyda ByIG ynghylch beth yw hyd a lled ei gyfrifoldeb dros gynnal trosolwg ar addysg a hyfforddiant Cymraeg a gwahanol swyddogaethau'r mudiadau a'r asiantaethau eraill perthnasol.

### 4.5.2 Cynlluniau iaith yn y sector addysg

Roedd ByIG wedi derbyn cynlluniau datblygu addysg Gymraeg gan 11 awdurdod addysg erbyn mis Mawrth 2000, gydag eraill ar y ffordd. Llwyddwyd i gyflwyno'r cynlluniau hyn yn dilyn proses o drafod gyda'r awdurdodau, ac yn eu tro, maent hwythau'n ymgynghori gyda grwpiau perthnasol megis Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RHAG) a'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae tystiolaeth bod rôl statudol y Bwrdd yn y maes hwn wedi annog awdurdodau addysg i gynllunio polisïau datblygu addysg Gymraeg da a bod yn fwy ymatebol i ofynion rhieni.

Fodd bynnag, mae anhawster gyda rhai cynlluniau datblygu addysg Gymraeg gan eu bod wedi'u bwriadu i bontio cyfnod o dair blynedd ond, dan rai amgylchiadau, bod y broses ymgynghori wedi para hyd at ddwy flynedd. Mae hyn yn golygu y gall y cynlluniau fod ar ei hôl hi'n barod, neu nad oes digon o amser i gyflawni'r amcanion, erbyn iddynt gael eu cymeradwyo. Efallai y byddai'n well unioni'r cynlluniau hyn gydag amserlen 10 mlynedd gwellcymru gan osod targedau penodol ar gyfer y tair blynedd cyntaf a mesurau dangosol wedi hynny.

Er mwyn i gynlluniau datblygu addysg Gymraeg fod yn gwbl effeithiol, dylid sefydlu system monitro perfformiad yn y maes

gyda golwg ar gyflawni gofynion y cynlluniau a gymeradwywyd. Ar hyn o bryd, mae bylchau sylweddol yn y broses fonitro a dim ond trwy sicrhau'r pwerau a'r adnoddau priodol y gellir llenwi'r bylchau hynny.

### 4.5.3 Cynyddu niferoedd

Mae a wnelo cynlluniau datblygu addysg Gymraeg yn bennaf â chwrdd â'r galw, yn hytrach nag â gosod agenda ar gyfer cynyddu nifer y plant sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg.

Wrth gymeradwyo cynlluniau datblygu addysg Gymraeg awdurdodau lleol, nid yw cylch gorchwyl y Bwrdd yn ddigon eang nes iddo allu mynnu bod yr awdurdodau'n arddel safbwynt rhagweithiol tuag at gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg. Roedd strategaeth wreiddiol y Bwrdd ar gyfer yr iaith Gymraeg yn cynnwys amrywiol amcanion dan y pennawd Cynyddu Niferoedd. Ar y cyfan, maent yn ymwneud ag ehangu'r dewis i rieni drwy gynyddu nifer yr ysgolion sy'n cynnig addysg ddwyieithog a chynyddu'r ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth fel ffordd o sbarduno'r galw.

Yn y datganiad Gweledigaeth a Chennad diweddarach, ceir atodiad dan y teitl *Strategaeth ar gyfer Addysg Ddwyieithog cyn – 16 yng Nghymru* sy'n nodi targedau ar gyfer twf drwy sbarduno'r ddarpariaeth Gymraeg ei chyfrwng yn y cyfnod cyn-ysgol a sicrhau bod y twf hwn yn bwydo drwodd i addysg gynradd. Mae'r ddogfen weledigaeth a chennad yn manylu ynghylch gostwng yr effaith 'colli disgyblion' o'r byd addysg ddwyieithog. Nid yw'r ddarpariaeth a gynigir ar lefelau isaf ysgol addysg yn cael ei chynnal drwodd i'r lefelau uwch, ac fe welir gostyngiad cynyddol yn y ddarpariaeth honno. Mae gwellcymru yn cynnwys gorchymyn clir i gynyddu niferoedd.

Nid yw'r targedau a bennwyd mewn dogfennau diweddar yn ystyried tueddiadau demograffig a allai olygu bod niferoedd yn cynyddu mewn rhai ardaloedd tra bo'r cyfraddau'n gostwng a sefyllfa cwbl groes i hynny'n digwydd mewn ardaloedd lle bo'r boblogaeth oed ysgol yn gostwng. Gwelir bod angen mwy o gysondeb wrth gynllunio ar draws sbectrwm y ddarpariaeth

addysg ar gyfer y Gymraeg. Oni lwyddir i wneud hyn, efallai na fydd modd cwrdd â'r galw ar lefelau is oherwydd y methiant ar lefelau uwch i hyfforddi digon o athrawon, arolygwyr a gweinyddwyr.

Er gwaethaf ymdrechion ByIG, gwelir peth tystiolaeth fod y ddarpariaeth addysg Gymraeg ei chyfrwng wedi sefyll yn llonydd yn ystod y ddegawd ddiwethaf. Mae'r lefelau twf uchel yn ystod yr 20 mlynedd blaenorol wedi gwastatáu erbyn hyn a bellach, bydd angen ymyrryd mewn ffordd greadigol a llawn dychymyg os yw llwyddiannau'r gorffennol am gael eu hailadrodd yn y dyfodol.

Trafodir y materion hyn yma am eu bod yn datgelu'r tyndra posibl sydd ymhlyg yn amcanion strategol y Bwrdd gyda golwg ar gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'i gylch gorchwyl i gynnal trosolwg ar addysg a hyfforddiant Cymraeg (gweler argymhelliad 16 uchod) tra bo'i bwerau i ymyrryd yn y maes wedi'u cyfyngu. Mae angen cynnal trafodaeth fanwl rhwng y Bwrdd, y Cynulliad Cenedlaethol a chwaraewyr allweddol eraill ynghylch y ffordd orau o ddyrannu grymoedd ac adnoddau er mwyn ymateb yn ddigonol i'r galw hwn sydd heb ei ddiwallu.

### 4.5.4 Dilyniant yn y ddarpariaeth addysg ddwyieithog

Mae ByIG wedi bod yn gyfrwng i dynnu sylw at y ffaith fod angen rhagor o ddilyniant yn y ddarpariaeth rhwng y gwahanol sectorau ym myd addysg. Mae'r cyhoeddiad yn 1999 *Continuity in Welsh Education* (Colin Baker a Meirion Prys Jones) yn olrhain gostyngiad sylweddol yn y nifer sy'n cael addysg Gymraeg rhwng y sector cynradd a'r sector uwchradd a'r colledion pellach wrth gyrraedd addysg bellach ac addysg uwch. Comisiynwyd gwaith ymchwil i sefydlu'r rhesymau dros y colledion a welir rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd (Hallam a Gruffudd, *Incomplete Bilingualism*) ac mae ByIG wedi trafod y canfyddiadau hyn mewn cynadleddau a chydag awdurdodau unigol.

Er bod modd i'r Bwrdd ddylanwadu ar awdurdodau lleol drwy gyfrwng cynlluniau datblygu addysg Gymraeg a thrwy gyfrwng ei grantiau addysg, mae addysg ôl 16 yn dalcen tipyn mwy caled. Mae nifer y myfyrwyr sydd ar gyrsiau Cymraeg mewn coleg addysg bellach ledled Cymru'n isel iawn ac mae BylG wedi methu'n gyffredinol â dylanwadu'n sylweddol ar y sector hollbwysig hwn, er bod y sefyllfa wedi bod yn destun cynadleddau a phapurau.

Mae natur annibynnol y sefydliadau sy'n gyfrifol am addysg ôl –16 a'u trefniadau cyllido, sy'n gweithredu heb gyfeirio at FylG, yn dwysáu'r problemau sydd ynghlwm wrth sicrhau polisi unffurf a grymus ar gyfer datblygu addysg Gymraeg ei chyfrwng yn y sector hwn. Mae angen sicrhau bod BylG yn cael swyddogaeth lawer eglurach mewn perthynas â chyrff megis Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, ACCAC, Cydbwyllgor Addysg Cymru ac ELWa. Gall fod angen i'r Cynulliad Cenedlaethol roi cyfarwyddyd penodol yn y mater hwn a chymrodeddu ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r cyrff hynny gyda golwg ar y ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

### 4.5.5 Addysg Uwch

Ar y cyfan, cydnabyddir bod y ddarpariaeth ar gyfer addysg bellach ac uwch Gymraeg ei chyfrwng yn annigonol. Mae sawl corff yn gyfrifol am wella'r sefyllfa ond mae diffyg adnoddau'n llestair parhaol. Er bod gan y Bwrdd y grym i fynnu bod cyrff dan sylw'n paratoi cynlluniau iaith, maent ar brydiau'n cymryd cyfnod hir i'w paratoi ac, yn aml, byddant yn ymdrin ag agweddau allanol, yn hytrach nag â darparu addysg Gymraeg ei chyfrwng. Nid yw'n debygol y bydd ymdrechion y Bwrdd byth yn gallu arwain at welliannau sylweddol, oni sicrheir cyllid ychwanegol drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Fel sy'n wir am y sector Addysg Bellach, mae gwneud cynnydd o ran llwyddo i sicrhau gwelliannau systematig yn fwy cymhleth oherwydd bod sawl corff yn ymwneud â'r broses, yn y cyswllt hwn, y Cyngor Cyllido Addysg Uwch, Prifysgol Cymru a BylG. Mae'r cynnydd y llwyddwyd i'w wneud yn y sector hwn wedi

dod oherwydd bod perthynas waith dda rhwng swyddogion y Bwrdd a'r sawl sy'n gyfrifol am gydlynu addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

### 4.5.6 Cymraeg i oedolion

Mae'r ffigurau ar gyfer oedolion sydd wedi cofrestru ar gyrsiau Cymraeg wedi amrywio ychydig dros y blynyddoedd diwethaf, ond yn gyffredinol, cydnabyddir fod peth cynnydd wedi bod yn y maes. Cymerwyd camau i osgoi dyblygu'r ddarpariaeth rhwng y Brifysgol ac awdurdodau lleol. Mae Cydbwyllgor Addysg Cymru wedi bod ar flaen y gad o ran datblygu arholiadau ac mae'r Brifysgol wedi cynnig trefniadau achredu. Mae ByIG wedi cynnwys addysg oedolion fel elfen o swyddog aeth ei drosolwg ac mae'n gweithio i gryfhau'r drefn. Nid oes gan y Bwrdd fecanwaith ar gyfer ymgymryd â swyddogaeth weithredol i ddatblygu'r ddarpariaeth ond mae'n ceisio darparu arweiniad a ffocws drwy drefnu a chydlynu.

Gwerthfawrogir swyddogaeth ByIG gan y rheiny sy'n ymwneud â darparu cyrsiau Cymraeg i oedolion, ond, unwaith eto, lleisir barn gref fod angen pwerau ymyrryd llawer cryfach a llawer mwy o gyllid os am weld newid byd o ran y ddarpariaeth ac o ran effeithiolrwydd.

Teimlir yn eiddigeddus iawn o HABE, y mudiad sy'n gyfrifol am ddysgu iaith i oedolion yng ngwlad y Basque. Mae ganddo gyllideb o £35 miliwn y flwyddyn a 200 o ganolfannau. Heb strategaeth rymus ar gyfer cynorthwyo'r sawl sydd wedi ymadael â'r ysgol i gaffael yr iaith, mae perygl na fydd cyrsiau i oedolion yn cael effaith eang ar ddefnyddio'r Gymraeg.

### 4.5.7 Grantiau ar gyfer hybu addysg Gymraeg

Mae dros draean cyllideb flynyddol y Bwrdd (£2.052 miliwn, 34.67% o gyfanswm y gwariant, sef £6.104 miliwn ym 1999-2000) wedi'i gorlannu ar gyfer darparu grantiau i hybu addysg Gymraeg. Mae hon yn swyddogaeth a ddatganolwyd i'r Bwrdd gan yr hen Swyddfa Gymreig. Mae'r grantiau'n cael eu rhoi i awdurdodau addysg lleol ac yn cael eu defnyddio i

hyrwyddo cynlluniau penodol ym maes dysgu'r Gymraeg, megis canolfannau dysgu dwys i bobl sy'n symud i mewn i'r ardaloedd lle bo'r Gymraeg yn brif gyfrwng addysg ysgolion lleol, athrawon bro i gynorthwyo i gyflwyno gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer dysgu'r Gymraeg a chynlluniau datblygu.

Mae hyn yn anomaledd braidd gan fod y grantiau hyn yn cael eu defnyddio'n bennaf at ddibenion addysg y brif ffrwd, ac nid ydynt yn wahanol, yn eu hanfod, i gronfeydd eraill a werir yn uniongyrchol gan awdurdodau addysg er mwyn cyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Maent yn gosod baich gweinyddol ychwanegol ar y Bwrdd ac yn ychwanegu'n sylweddol at y cyllid ymddangosiadol sydd ar gael ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r cronfeydd hyn wedi'u corlannu at y diben a bennwyd ac felly, ni ellir eu defnyddio ar gyfer blaenoriaethau eraill y Bwrdd.

Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd yn gwarafun dilyn y drefn hon gan ei bod yn ei gweld yn gam cadarnhaol sy'n caniatáu iddo gael deialog greadigol gyda'r awdurdodau addysg perthnasol. Yn yr ystyr hwn, ceir rhywfaint o werth ychwanegol yn sgîl cyfeirio'r grantiau hyn drwy FyIG ac ni allwn weld y byddai manteision mawr yn deillio o newid y drefn.

### 4.5.8 Datblygiadau eraill

Mae'r Adran Addysg a Hyffordidant wedi llunio a gweithredu prosiectau eraill gan gynnwys y prosiect trosglwyddo iaith sydd wedi'i anelu at ddefnyddio bydwragedd a phecynnau gwybodaeth ôl eni i annog rhieni newydd i fagu eu plant mewn amgylchedd Cymraeg ei iaith. Cynhaliwyd peilot o hwn yn Sir Gaerfyrddin ac mae'n cael ei ymestyn i Siroedd Dinbych a Chonwy a wardiau mamolaeth mewn ysbytai ledled Cymru.

Hefyd, maen nhw wedi creu pecynnau hyrwyddol i annog rhieni i ddewis addysg ddwyieithog i'w plant, prosiect technoleg gwybodaeth ac amrywiol fentrau i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob sector o gyn ysgol i addysg oedolion.

Yn gyffredinol, mae'r rhai sy'n dod i gysylltiad â hi â pharch mawr i waith ac arbenigedd yr adran.

## 4.6 Adran Grantiau

Yr Adran Grantiau sy'n gyfrifol am grantiau BylG i gyrff trydydd parti, heblaw am y grantiau addysg a drafodwyd uchod. Eto, maen nhw'n cynrychioli cyfran sylweddol o wariant blynyddol BylG (cyfanswm o £2.341 miliwn, 38.35% o wariant gros ym 1999-2000). Mae'r grantiau hyn mewn pedwar categori clir:

- Grantiau mawr i gyrff oedd yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gynt gan y cyn Swyddfa Gymreig;
- Grantiau eraill a roir yn ôl doethineb y Bwrdd i fudiadau ac i bwrpasau sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol BylG;
- Grantiau bychan i'r sectorau gwirfoddol a phreifat i hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y mudiadau sy'n gwneud cais;
- Grantiau i Fentrau Iaith ar gyfer gwaith ar lefel y gymuned.

### 4.6.1 Grantiau mawr

Telir y rhain yn flynyddol i bedwar prif sefydliad yr ystyriwyd hwy'n deilwng o gefnogaeth uniongyrchol y llywodraeth am nifer o flynyddoedd oherwydd eu cyfraniad i iaith a diwylliant Cymru. Ym 1999-2000, y symiau a dalwyd i'r sefydliadau hyn oedd:
£623,704 i'r Cyngor Llyfrau Cymraeg;
£268,911 i Urdd Gobaith Cymru;
£326,523 i'r Eisteddfod Genedlaethol;
£557,626 i Mudiad Ysgolion Meithrin (sefydliad cylchoedd chwarae a meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg).

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am weinyddu'r grantiau hyn i FylG ym mlwyddyn ariannol 1997-98, ar ôl iddo fabwysiadu *Strategaeth yr Iaith Gymraeg* yn ystod y flwyddyn cynt. O ganlyniad, maen nhw wedi bod yn rhyw fath o ychwanegiad anomalaidd i storfa BylG. Er bod gan y Bwrdd yr hawl i amrywio neu hyd yn oed i atal y grantiau hyn mewn theori,

maen nhw'n cynrychioli arian craidd i'r sefydliadau dan sylw. Felly, bu'n rhaid i FyIG gynnwys y mesurau cefnogi sylweddol hyn pa un a ydyn nhw'n cynrychioli blaenoriaethau strategol ByIG yn gywir ai peidio.

Maen nhw hefyd yn cynrychioli gorben sylweddol o safbwynt gweinyddu, nid yn unig yn yr amser a dreulir i drafod a negodi gyda'r sefydliadau dan sylw ond hefyd o safbwynt dyletswydd atebolrwydd ByIG am wariant cyhoeddus lle mae'n cynnal adolygiad annibynnol bob chwe blynedd o'r holl grantiau dros £200,000 y flwyddyn. Yn ystod blwyddyn ariannol 1999-2000 roedd ByIG yn comisiynu adolygiad gan Grant Thornton o grant ByIG i'r Cyngor Llyfrau ac yn ystod 2000-2001 yn cynnal adolygiad gan Cwmni Iaith Cyf o gefnogaeth ByIG i'r Mentrau Iaith. Mae astudiaethau annibynnol hefyd wedi eu comisiynu yn y gorffennol i roi arweiniad i benderfyniadau'r Bwrdd ar grant i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol.

Mae anomaleddau eraill yn y system, sef y ffaith fod rhai o'r sefydliadau hyn yn derbyn arian gan CCNCau eraill a/neu'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun. Un o'r rhain yw'r Cyngor Llyfrau lle mae cefnogaeth ByIG wedi'i anelu at gefnogi cyhoeddi llyfrau, CD Romau ayyb Cymraeg eu hiaith, tra bod y Cyngor Llyfrau'n derbyn arian craidd gan y Cynulliad Cenedlaethol fel etifeddiaeth o Adran 26 Deddf Datblygu Cymru Wledig.

Mae'n edrych yn debyg bod angen eglurder pellach o safbwynt cyfrifoldeb i'r Cyngor Llyfrau. Er bod cefnogaeth ByIG yn ymddangosiadol wedi'i anelu at gyfraniad y Cyngor Llyfrau at ddatblygiad yr iaith Gymraeg, mae'n ymgymryd â gweithgareddau eraill sy'n cynnwys busnes dosbarthu rhannol-fasnachol sylweddol sy'n cefnogi nifer mawr o gyhoeddwyr a gwerthwyr llyfrau yng Nghymru. Mae graddfa grant ByIG yn ei wneud yn elfen adeileddol yn ariannu cyffredinol y Cyngor Llyfrau ac felly'n cyfyngu ar allu ByIG i gyfeirio'r arian tuag at fesurau penodol i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Gall hyn gyfrif am aneglurder cyfeireb Cynllun Gweithredu 2000-2001 ByIG i'r Cyngor Llyfrau lle mae'n gosod targed penagored o gefnogi cyhoeddi 175 o lyfrau newydd.

Adlewyrchir hyn hefyd yn y berthynas annelwig rhwng targedau, dyddiadau cau a thaliadau.

Mae adroddiad Grant Thornton yn codi'r pryderon hyn ond nid yw ByIG yn teimlo y gall ymateb ar wahân. Mae'r mater yn gofyn am gyd benderfyniad rhwng ByIG a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae pryderon tebyg gyda'r Eisteddfod Genedlaethol ac Urdd Gobaith Cymru. Mewn egwyddor, gellir cyfiawnhau cefnogaeth ByIG i'r ddau fudiad gan fod y grant yn annog ymdrech sylweddol gan wirfoddolwyr gyda goblygiadau eang i hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar lefel cymuned a chyda sectorau targed pwysig fel pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae cefnogaeth ByIG wedi'i chysylltu â thargedau perfformiad annelwig a weithiau anaddas (ee denu 165,000 o ymwelwyr i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli – tybed nad yw hyn yn fwy addas i Fwrdd Croeso Cymru).

Yn weinyddol, byddai'n llawer mwy cyfleus ac, fe ellid dadlau, yn fwy cost-effeithiol petai cefnogaeth i'r cyrff hyn yn dod o un ffynhonnell. Os mai ByIG fyddai hyn, byddai'n ddiamau'n galluogi ByIG i roi gwell ffocws ar gefnogi'r iaith ond gallai'r sefydliadau dan sylw ddadlau, gyda rhywfaint o gyfiawnhad, fod ganddynt flaenoriaethau eraill a allai wrthdaro gyda rhai ByIG.

Anomaledd arall wrth weinyddu'r grantiau mawr hyn yw eu bod o fewn terfyn dirprwyedig sy'n mynnu bod ByIG yn cael cymeradwyaeth flaenorol gan y Cynulliad Cenedlaethol i'r holl grantiau dros £300,000. Mae hyn fel petai'n gyfyngiad diangen sy'n gwastraffu adnoddau ByIG a'r Cynulliad Cenedlaethol o gofio hanes y gefnogaeth sylweddol i'r sefydliadau hyn dros nifer o flynyddoedd.

### Argymhelliad

17. Bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod yn agored y cyfyngiadau ar allu BYIG i fwyhau'r budd strategol o'i grantiau i gyrff diwylliannol cenedlaethol a etifeddwyd oddi wrth y Swyddfa Gymreig.

### 4.6.2 Grantiau eraill ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

Cynigir y grantiau hyn yn unol â gallu BYIG i gynnig grantiau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Yn wahanol i'r grantiau mawr a drafodwyd uchod, cynigir y rhain i weithredu blaenoriaethau strategol BYIG ac fel arfer maent wedi eu cyfeirio at sefydlu partneriaethau ystyrlon sy'n annog ymdrech gwirfoddolwyr ac arbenigedd perthnasol i hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Cyrff a phrosiectau sy'n cael eu cefnogi o dan y pennawd hwn yw papurau bro a mudiadau gwirfoddol yr iaith Gymraeg, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru sy'n gweithio gyda BYIG ar gynllunio corfforaethol a chyrff arbenigol fel Cwmni Iaith Cyf a Canolfan Bedwyr.

Mae tystiolaeth o ofal gan FYIG fod cyrff sy'n derbyn cefnogaeth yn gwneud cyfraniadau perthnasol i amcanion strategol BYIG a bod y Bwrdd wedi gwneud penderfyniadau anodd yn y gorffennol i atal grant i fudiadau fel Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn a CYD pan oedd amheuaeth o'u heffeithlonrwydd. Fodd bynnag, hoffem fod wedi gweld mwy o fanylion yng nghynlluniau gweithredol blynyddol BYIG am y targedau penodol a gytunwyd gyda'r sefydliadau hyn, rhai ohonynt yn derbyn symiau mawr o arian o gymharu â rhai o brojectau mewnol BYIG. Fel ychwanegiad, dylid bod wedi cyflwyno dadansoddiad mwy manwl o'u perfformiad yn erbyn targedau. Yn Adroddiad Blynyddol 1999-2000 a gyflwynodd adroddiad ar berfformiad yn erbyn targedau, yr unig beth a gofnodir yw bod 88% o sefydliadau a gafodd gefnogaeth, wedi cyflawni eu targedau yn ystod y flwyddyn ariannol, yn erbyn targed o 90%. Gallai hyn awgrymu bod 12% o'r gwariant ar grantiau o £2.32 miliwn (hy £278,400) wedi'i

wastraffu. Mae'n amlwg nad yw hyn yn wir, ond dylai BylG osgoi gwneud ei hun yn wystl i ffortiwn fel hyn.

### 4.6.3 Grantiau bychan

Yn dilyn cais a chymeradwyaeth, cynigir y grantiau hyn i gyrff yn y sector gwirfoddol a phreifat i annog mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg mewn meysydd fel marchnata, cyhoeddusrwydd ac arwyddion. Y cyfanswm a ddyranwyd ym 1999-2000 oedd £13,075 i gyfanswm o 52 corff yn y sector preifat a gwirfoddol.

Ystyrir y grantiau hyn yn gyswllt pwysig gyda'r sector preifat. Nid ydynt yn feichus iawn i'w gweinyddu ac mae'n bosibl eu bod yn llawer mwy effeithiol nag, er enghraifft, ymgyrch farchnata yn y wasg neu ar y teledu sydd wedi'i hanelu at annog datblygiadau tebyg yn y sector preifat.

Ein hunig bryder yn y cyfeiriad hwn yw bod hyn, o'i ystyried ar y cyd gyda'n sylwadau ar Adran Marchnata a Chyfathrebu BylG uchod, yn cynrychioli lefel isel iawn o weithgarwch yn y sector preifat o gofio'i effaith ar y defnydd dyddiol o Gymraeg ar lefel gwerin gwlad.

### Argymhelliad

18. Bod BylG yn ystyried sut y gall ddwysau ei anogaeth i weld mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat (Gweler hefyd 4.3.).

### 4.6.4 Mentrau Iaith

Er bod y grantiau hyn i bob pwrpas yn yr un categori â'r rhai a drafodwyd uchod, mae BylG yn eu hystyried fel menter ar wahân. Er bod 12 grant o'r fath wedi eu rhoi ym 1999-2000, o £6,666 i £65,000, mae BylG yn eu hystyried yn generig ac mae wedi comisiynu gwaith ymchwil i'w heffaith fel rhan o'i raglen o adolygiadau annibynnol o'r holl grantiau dros £200,000.

Mae'r cysyniad o Fenter Iaith yn tarddu cyn sefydlu ByIG ond ByIG sydd wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu'r fenter ac am ei hymestyn i gyfanswm o 21 ardal fel ei brif dechneg ar gyfer datblygiad yr iaith Gymraeg ar lefel cymuned. Erbyn hyn, dim ond 6 o'r 22 bwrdeistref sirol yng Nghymru sydd heb Fenter Iaith yn gweithredu yn eu hardaloedd.

Mae cefnogaeth ariannol ByIG i'r mentrau hyn wedi cynyddu i £½miliwn y flwyddyn erbyn hyn gyda 75% o'r cymorth hwn wedi'i glustnodi i gefnogi nifer sy'n cyfateb i tua 33 o staff llawn amser.

Mae'r broses ddatblygu wedi ei seilio ar waith ymchwil rheolaidd a strwythuredig, er enghraifft, adroddiad *Y Prosiect Ymchwil Cymunedol*, Colin H Williams a Jeremy Evas (1997); Adroddiadau Blynyddol gan y Mentrau Iaith; adroddiad eponymaidd o weithdy a gynhaliwyd ym mis Mai 1998 ac yn fwy diweddar, *Adolygiad o'r Mentrau Iaith yng Nghymru* gan Kathryn Jones a Gareth Ioan, 2000. Mae cyrff eraill wedi cyfrannu at y broses, er enghraifft, adroddiad Fforwm Dwyieithog Gwynedd 1995, *Tuag at Strategaeth Iaith yng Ngogledd Orllewin Cymru.*

Mae'r rhesymeg dros gefnogi Mentrau Iaith fel mentrau cymunedol yn deillio o ddogfennau strategol ByIG sy'n pwysleisio pwysigrwydd cynnal cymunedau hyfyw lle mae'r Gymraeg yn brif iaith y mwyafrif llethol o'r boblogaeth. Fodd bynnag, gwelir bod gan y Mentrau Iaith hefyd rôl werthfawr i symbylu datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg yn helaethach mewn ardaloedd lle mae'r mwyafrif yn siarad Saesneg, lle mae'r mwyafrif o'r siaradwyr Cymraeg wedi llwyddo i fod yn rhugl yn yr iaith drwy addysg cyfrwng Cymraeg.

Ystyrir bod cefnogaeth i'r Mentrau Iaith yn gost effeithiol gan eu bod yn annog ymdrech sylweddol gan wirfoddolwyr, yn denu arian ychwanegol o ffynonellau eraill fel awdurdodau lleol a'r Loteri cenedlaethol a bod ganddynt ffocws ar lefel leol mewn ardaloedd lle nad yw'r Ddeddf yn galluogi ByIG i orfodi

cynlluniau iaith, er enghraifft yn y sectorau preifat a gwirfoddol. Gallant fod yn ddyfeisgar ac yn ymatebol i ofynion y cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu ganddynt. Hefyd, maen nhw'n ymwneud mwy gyda'r cysyniad o 'Gymreictod' (y goblygiadau diwylliannol ehangach sy'n dylanwadu ar bobl sy'n gallu siarad mwy nag un iaith i ddewis defnyddio'r Gymraeg gymaint ag sy'n bosibl) nag y mae'n bosibl i FyIG ei hun ei wneud ac maen nhw'n gallu ymateb yn well i amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn amgylchiadau ac anghenion.

Mae diffygion i'r ymagwedd hwn, fodd bynnag. Nid oes gan y Mentrau unrhyw sicrwydd o barhad ariannol o flwyddyn i flwyddyn ac maen nhw'n cael eu cyfyngu felly rhag cynllunio ymlaen llaw. Mae'n rhaid i rai dreulio llawer o amser ac egni yn codi arian i gynnal eu gweithgareddau ac mae pryderon mewn rhai ardaloedd am eu gallu a'u proffesiynoldeb. Mae'r adolygiad diweddar a gomisiynwyd gan FyIG yn gwneud 5 prif argymhelliad a 59 argymhelliad penodol i'w gwella. Roedd yr astudiaeth ar gyfer yr adroddiad yn gynhwysfawr ac wedi'i hymchwilio'n drylwyr. Ni welwn unrhyw reswm dros ailadrodd na thrafod ei chanlyniadau'n fanwl yn yr adolygiad hwn, heblaw i gefnogi ei phrif argymhellion o safbwynt bod angen mwy o arweiniad a chefnogaeth gan FyIG i'r Mentrau.

Deallwn fod ByIG wedi ymateb yn barod drwy adleoli cyfrifoldebau o fewn y sefydliad i sicrhau bod gweithgareddau'r Mentrau a phartneriaid eraill yn ymblethu'n agosach gyda rhai ByIG ei hun. Mae ByIG hefyd yn arbrofi gydag ymyriad uniongyrchol ar lefel cymuned a dylai hyn esgor ar fanteision ar gyfer gweithredu'r Mentrau'n annibynnol yn y dyfodol.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl yr hoffai ByIG ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud ceisiadau canolog am arian ychwanegol o ffynonellau fel Byrddau'r Loteri a chronfeydd yr UE i gefnogi gwaith y Mentrau Iaith er mwyn rhyddhau eu staff a'r aelodau o rai o'u cyfrifoldebau codi arian parhaus ac felly caniatau

iddyn nhw dreulio mwy o amser yn cyflawni eu hamcanion craidd.

### Argymhellion

19. Bod ByIG yn adolygu ei ddisgwyliadau o'r cyrff sy'n derbyn ei gefnogaeth drwy grantiau, yn benodol y Mentrau Iaith, yng ngoleuni rhai astudiaethau arfarnu diweddar a'i fod yn cyfeirio'i gefnogaeth yn fwy penodol i weithgareddau a luniwyd i annog mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg. (Gweler hefyd 4.6.1.)

20. Bod ByIG, o gofio'r uchod, yn ystyried sut orau y gall gefnogi gwaith y Mentrau Iaith yn fwy na rhoi grant yn unig, er enghraifft, drwy gynnig hyfforddiant, gwell cydlyniant a cheisiadau canolog am arian ychwanegol o ffynonellau eraill i gefnogi eu gwaith.

## 4.7 Materion eraill

Trafodir gwaith yr Adrannau Cyllid a Gweinyddu yng nghyd-destun Adolygiad Rheolaeth Gorfforaethol (Pennod 5).

### 4.7.1 Presenoldeb rhanbarthol

Fel yr awgrymwyd yng ngham cyntaf yr Adolygiad hwn, mae barn gyffredinol fod ByIG mewn perygl o fod yn anymwybodol o bryderon dydd i ddydd y bobl ar lefel rhanbarthol a chymunedol. Yn ddiamau, mae rheswm da dros gadw ei brif swyddfa yng Nghaerdydd oherwydd yr angen am sefydlu perthynas waith agos gyda'r Cynulliad Cenedlaethol a phrif asiantaethau eraill. Fodd bynnag, gall hyn, a'r ffaith fod mwyafrif staff ByIG yn byw yng Nghaerdydd, arwain at y syniad o fod allan o gysylltiad â chyfranddeiliaid.

Mae goblygiadau cyllidol sylweddol ynghyd â materion o gydlynu wrth rannu staff bychan ByIG i swyddfeydd rhanbarthol ond mae ByIG yn ystyried y mater hwn yn ddifrifol. Ar hyn o bryd, mae'n archwilio'n ymarferol i'r posibilrwydd o ddatblygu presenoldeb rhanbarthol yn rhan amser neu o bryd

i'w gilydd yng Nghaerfyrddin a Phorthmadog. Yn ddiamau, adolygir y sefyllfa'n gyson a bydd yn cael ei arfarnu'n llawnach yn y dyfodol.

### Argymhelliad

21. Bod ByIG yn ystyried sut y gall gryfhau ei bresenoldeb rhanbarthol yng Nghymru, efallai drwy drefniant gyda sefydliadau eraill a Mentrau Iaith.

### 4.7.2 ByIG a'r economi

Mae sawl astudiaeth a dogfennau strategol ByIG ei hun wedi dangos y berthynas hanfodol rhwng amgylchiadau economaidd a sefyllfa'r iaith Gymraeg. Nid yw'r Ddeddf yn rhoi unrhyw bwer penodol i ByIG ymyrryd mewn materion cynllunio economaidd, heblaw efallai ar lefel meicro drwy ei fentrau iaith. Fodd bynnag, mae'n fater y mae'n rhaid i ByIG ei ystyried yn ddwys er mwyn bod yn gyson gyda'i ddadansoddiad ei hun o ddylanwadau ar y defnydd o iaith.

Dylai ByIG geisio gweithio'n agosach gydag asiantaethau fel yr Awdurdod Datblygu, y Bwrdd Croeso, adran amaeth y Cynulliad Cenedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r sector preifat i ddatblygu cyd fentrau, yn arbennig yn yr ardaloedd hynny lle mae'r iaith Gymraeg yn parhau'n gymharol gryf, i weithio tuag at ddyfodol cynaliadwy i'r cymunedau hyn.

### 4.7.3 Y Loteri Cenedlaethol

Erbyn hyn, mae'r Loteri'n cynnig arian ar gyfer achosion amrywiol ar raddfa a all wneud cyfraniadau cyrff cyhoeddus sy'n cynnig arian ymddangos yn bitw. Hyd yn hyn, mae'n ymddangos fod rhai Mentrau Iaith wedi derbyn cymorth gan y Loteri. Fodd bynnag, gall y Loteri fuddsoddi arian mawr a allai greu dylanwad sylweddol ar ddatblygiad a defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ardal (er enghraifft yr Ardd Fotaneg Genedlaethol). Mae'n bosibl yr hoffai ByIG ystyried sut y gallai ddatblygu perthynas ar y cyd gyda phrif Fyrddau'r Loteri i

ddatblygu cyd fentrau a fyddai o fudd i'r iaith Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith.

### Argymhelliad

22. Bod BylG yn chwilio am gyfleoedd i weithio ar y cyd gydag asiantaethau datblygu eraill a Byrddau'r Loteri i ddatblygu cyd brosiectau er budd cymunedau Cymraeg eu hiaith ym mhob ardal o Gymru.

## CASGLIADAU

### 4.8 Crynodeb o'r casgliadau

Mae trefniadaeth fewnol BylG yn adlewyrchu'r swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf, ynghyd â dyletswyddau penodol a gafodd ers ei sefydlu. Mae hyn wedi creu strwythur adrannol sy'n rhannu ei staff o 34 yn saith adran wahanol. Mae perygl y bydd yr adrannau hyn yn datblygu meddylfryd 'seilo' a dylid gweithredu i greu ymagwedd mwy holistig er mwyn hybu a hyrwyddo defnydd o'r iaith.

Mae pob adran yn gweithredu o dan bwysedd. Mae hyn oherwydd natur eang eu cyfrifoldebau a'u llwyth gwaith cynyddol, yn arbennig yn yr adran Sector Cyhoeddus a Gwirfoddol oherwydd ymestyn ei chyfrifoldeb yn gyson i ddechrau a monitro cynlluniau iaith y sector cyhoeddus. Mae diffyg eglurder yn ystyr goblygiad yr Adran Addysg a Hyfforddi i gynnal gorolwg o addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

Er hyn, mae llawer wedi'i gyflawni. Gwelwyd gwelliant amlwg yn statws yr iaith Gymraeg o fewn gweinyddu cyhoeddus a chyfreithiol. Gwelwyd cynnydd yn y ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant dwyieithog. Mae llawer mwy o wasanaethau ar gael erbyn hyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Datblygwyd mentrau calonogol i annog trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd ac i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn busnes a masnach. Bu'n rhaid i strwythur yr iaith addasu'n sylweddol i'r gofynion newydd a wnaed arni gan y cynnydd yn y meysydd hyn ac mae BylG wedi arwain wrth annog datblygu

termau newydd, datblygu medr mewn cyfieithu a chyflwyno'r iaith i feysydd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae llawer o gefnogaeth ByIG i gymunedau a'r gweithredu o'u mewn yng Nghymru yn cael eu wneud drwy'r Mentrau Iaith hynod gymeradwy. Bu'r rhain yn ddiweddar yn destun arfarniad annibynnol ac mae rhai materion pwysig wedi dod i'r amlwg. Er bod Mentrau Iaith yn cynnig nifer o fanteision i FyIG wrth roi cefnogaeth i'r iaith ar lefel gwerin gwlad, mae perygl eu hystyried fel ateb yn hytrach na mecanwaith. Rhaid gosod targedau gweithredu penodol iddyn nhw a chynnig hyfforddiant a mesurau cefnogi ymarferol gan gynnwys annog dyfeisgarwch a rhannu arfer da.

Cyflawnir amcanion eraill ByIG drwy ddarparu grantiau i sefydliadau partneriaid. O fewn y rhain mae'r grantiau mawr blynyddol i sefydliadau penodol oedd yn derbyn cefnogaeth uniongyrchol gynt gan y Swyddfa Gymreig. Mae materion cyfrifoldeb a thargedu cymorth i flaenoriaethau ByIG gyda'r sefydliadau hyn.

Mae grantiau eraill yn caniatau i FyIG ddatblygu perthnasoedd pwrpasol gyda chyrff eraill ac i ymestyn ystod swyddogaethau a dylanwad ByIG y tu hwnt i'r hyn y gall ei staff gyflawni oherwydd eu bod o dan bwysau trwm.

# 5 RHEOLAETH GORFFORAETHOL

## CYD-DESTUN

### 5.1 Y fframwaith

Mae Atodlen 1 i Ddeddf yr Iaith Gymraeg yn nodi gofynion penodol ar gyfer rheolaeth gorfforaethol o FyIG. Ond, yr un fath â Chyrff Cyhoeddus eraill wedi'u Noddi gan y Cynulliad, mae'r Bwrdd yn atebol i gyfundrefn fanylach o lawer er mwyn gofalu ei fod, yn unol ag ymddygiad cyrff cyhoeddus a gweinyddu arian cyhoeddus, yn cydymffurfio â safonau datblygol mewn meysydd megis gonestrwydd, tryloywder, cyfrifo, gwerth gorau, rheoli risgiau ac yn y blaen.

Nodir prif gyfrifoldebau'r Bwrdd ynghylch ei berthynas â'r adran sy'n ei noddi a Chynulliad Cenedlaethol Cymru mewn Datganiad Rheolaeth a Memorandwm Ariannol. Cafodd y rhain eu hadolygu'n ddiweddar er mwyn ystyried y pwerau a'r cyfrifoldebau a drosglwyddwyd o'r Swyddfa Gymreig i'r Cynulliad Cenedlaethol. Hefyd, manteisiwyd ar y cyfle i ddiweddaru agweddau eraill arnynt. Dyddiad y fersiwn cyfredol yw Medi 2000.

Mae'r Datganiad Rheolaeth (sydd bellach yn cynnwys y Memorandwm Ariannol) yn crynhoi'r gwahanol offer statudol a rheoliadau eraill sy'n nodi'r safonau a'r disgwyliadau ynghylch rheoli busnes y Bwrdd. Mae'n ymdrin ag agweddau megis:

- Y cyd-destun cyfreithiol
- Cyfrifoldebau ac atebolrwydd
- Polisï au a blaenoriaethau
- Cydymffurfio a monitro
- Staffio a rheoli personél

# DADANSODDIAD

## 5.2 Asesu cydymffurfiad

Wrth i ni asesu'r graddau yr oedd y Bwrdd yn deall, yn parchu ac yn gweithredu'r Datganiad Rheolaeth, buom yn:

- Cynnal trafodaethau â'r Prif Weithredwr, fel Prif Swyddog Cyfrifo;
- Cynnal trafodaethau â'r Prif Swyddog Ariannol a Phenaethiaid yr Adrannau;
- Archwilio dogfennaeth fewnol, gan gynnwys Codau Ymarfer a gweithdrefnau ar gyfer sefydlu Aelodau newydd o'r Bwrdd a staff;
- Archwilio adroddiadau archwiliadau mewnol ac adroddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- Cynnal trafodaethau â chynrychiolwyr o wasanaeth Archwilio Mewnol y Cynulliad Cenedlaethol ac o'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

## 5.3 Gweithredu'r Datganiad o Reolaeth

Rydym wedi edrych ar yr agweddau a ganlyn ar gydymffurfio â'r Datganiad Rheolaeth:

- Adrodd ac archwilio blynyddol;
- Y berthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol;
- Rheoli ac archwilio cyllid a rheolaeth yn fewnol;
- Cydymffurfio â'r safonau ymarfer a ddisgwylir gan gyrff cyhoeddus.

### 5.3.1 Adrodd ac archwilio blynyddol

Mae'r Bwrdd yn cyflwyno'i adroddiad blynyddol a'i gyfriflenni i'r Cynulliad Cenedlaethol yn flynyddol mewn dogfen

gyhoeddus ddwyieithog, sydd hefyd yn cael ei rhoi ar wefan y Bwrdd, www.bwrdd-yr-iaith.org.uk. Mae'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n brydlon – mae Cyflwyniad y Cadeirydd ac Adroddiad y Prif Weithredwr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2000 yn ddyddiedig Ebrill 2000, cafodd y datganiadau ariannol eu llofnodi gan y Prif Swyddog Cyfrifo ar 19 Mai a chafodd y dystysgrif archwilio ei llofnodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 1 Mehefin.

Mae adroddiadau'r Bwrdd ar gyfer y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn gynhwysfawr a darllenadwy. Mae'r wybodaeth ariannol a roddwyd yn rhoi digon o fanylion i'r cyhoedd fel y gallant wybod beth yw ffynhonnell incwm y Bwrdd a pha weithgareddau sydd wedi elwa ar yr arian.

Mae datganiadau ariannol y Bwrdd a'r modd y mae'n cydymffurfio â'r Memorandwm Ariannol yn cael eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac mae adroddiad ac ardystiad y Swyddfa'n cael eu cyfeirio at reolwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru a ByIG. Mae'r adroddiad yn cynnwys Llythyr ar Reolaeth, sy'n adrodd ar faterion sy'n awgrymu bod angen gwell arferion ond nad ydynt yn cyfiawnhau amodi'r cyfrifon nac i amau'r modd y mae'r sefydliad yn cydymffurfio â'r Memorandwm Ariannol. Mae gan y Bwrdd hanes da o ran delio â materion a ddaeth i'w sylw fel hyn ac nid oes gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw bryder ynghylch rheolaeth ariannol y Bwrdd a'i gydymffurfiad â'r safonau perthnasol.

### 5.3.2 Y berthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyflwyno'r manylion am ei gymorth ariannol blynyddol ar gyfer gwaith y Bwrdd mewn llythyr cylch gorchwyl oddi wrth y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg at Gadeirydd y Bwrdd. Mae'r llythyr yn cysylltu cymorth grant y Cynulliad â chynllun busnes y Bwrdd, a gafodd ei gyflwyno cyn hynny ar ôl trafodaethau â'r Adran Weithredol. Mae'n nodi sut y dylid defnyddio'r grant, yn cadarnhau rôl y Bwrdd o ran ei weithgareddau yn unol â'r Ddeddf, sut y dylai weithredu polisïau'r Cynulliad Cenedlaethol

a'i wasanaeth i'r cyhoedd. Mae'n cysylltu cymorth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer targedau perfformiad penodol sy'n seiliedig ar y rhai a gynigir gan y Bwrdd yn ei ddogfennau cynllunio busnes. Mae'r Datganiad Rheolaeth a gytunir rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a ByIG yn nodi mynychder a ffurf yr adroddiadau misol, chwarterol a blynyddol y mae disgwyl i'r Bwrdd eu cyflwyno i'r Cynulliad. Yn ogystal, gall y llythyr cylch gorchwyl ofyn am adroddiadau ychwanegol ar faterion penodol.

O safbwynt y Bwrdd a'r Cynulliad Cenedlaethol, mae'r system yn ddealladwy ac ymddengys ei bod yn gweithio'n dda.

Mae'r Datganiad Rheolaeth yn cynnwys cyfyngiadau hefyd ar ryddid y Bwrdd i weithredu mewn meysydd penodol. Er enghraifft, rhaid cael caniatâd y Cynulliad o flaen llaw cyn y gall y Bwrdd newid y telerau ac amodau ynghylch penodi ei staff, cyflogi mwy o staff nag a gytunwyd, gwario mwy nag a gytunwyd ar gostau cynnal a gweithredu y tu hwnt i'w awdurdod mewn amgylchiadau penodol.

Mae hyn yn elfen dra dealledig o'r mesurau sydd i fod i ofalu bod Cyrff Cyhoeddus wedi'u Noddi gan y Cynulliad yn gweithredu mewn modd sy'n fwy atebol na'r systemau mwy llac a phragmatig a all fod yn fwy cyfarwydd i aelodau o'r sector preifat sy'n aelodau o'u Byrddau. Serch hynny, maent yn dod â gwerth am arian a materion ymarferol i'r amlwg.

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf cafwyd rheoli ac adrodd mwy soffistigedig, ac mae hyn yn codi amheuon ynghylch rhai o'r cyfyngiadau mwy hirhoedlog ar gyrff anadrannol. Rydym hefyd yn amheus a yw rhai o'r cyfyngiadau llafurus a chymharol fympwyol ar ryddid y Bwrdd i weinyddu'r adnoddau a ddaw o'r Cynulliad Cenedlaethol yn berthnasol o hyd. Er enghraifft:

- Yr angen i gael caniatâd y Cynulliad Cenedlaethol i fynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ymddangos yn derfynau mympwyol ar gyfer grantiau 'mawr' blynyddol a chostau gwerthuso;

- Dyrannu cymorth grant i bennau cyllideb penodol (a chyfyngu, er enghraifft, ar y defnydd o gymorth grant ar gyfer costau canolog a chylch-gau grantiau addysg).

Mae cyllideb gyfan y Bwrdd yn llai na rhai cyllidebau adrannol mewn Cyrff Cyhoeddus mwy wedi'u Noddi gan y Cynulliad, ac ymddengys fod gosod cyfyngiadau o'r fath ar sut mae'r Bwrdd yn defnyddio'i arian oddi mewn i amcanion corfforaethol cytunedig yn ddibwrpas ac yn wastraff ar adnoddau prin. Fel enghraifft, ystyriwn strwythur cyflogau sefydliad arbenigol bach sy'n dibynnu'n llwyr ar arbenigedd a phrofiad ei staff. Ni all fforddio strwythur gyrfaoedd a gellir dadlau y dylai gael mwy o ryddid i wobrwyo cyflawniad ac i gadw staff allweddol yn hytrach na gorfod wynebu'r costau uchel o recriwtio, hyfforddi a cholli momentwm oherwydd ymadawiad y staff. Enghraifft arall fyddai cyflogi'n uniongyrchol y staff sydd ar hyn o bryd yn derbyn cymorth y Mentrau Iaith er mwyn cael cysondeb o ran cymhwysedd a phwrpas.

### Argymhelliad

23. Bod y Cynulliad Cenedlaethol yn adolygu'r terfynau presennol o ran dirprwyo awdurdod, yn enwedig mewn perthynas â'r grantiau mawr blynyddol i sefydliadau penodedig, gwariant ar werthuso ac astudiaethau tebyg a chyfyngiadau ar amodau cyflogaeth. (Gweler hefyd 4.6.1.)

### 5.3.3 Rheoli ac archwilio cyllid a rheolaeth yn fewnol

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd sefydlu Pwyllgor Archwilio i arolygu cyfundrefnau archwilio ac i ddelio â materion sy'n deillio ohonynt.

Yn ddiweddar mae'r Trysorlys wedi adolygu'r trefniadau ar gyfer archwilio ac atebolrwydd y llywodraeth ganolog (Trysorlys EM, 2001). Mae eu hargymhellion yn gosod safon y gellir ei defnyddio wrth farnu cyrff anadrannol eraill. Mae'r adolygiad yn argymell y dylai'r pwyllgorau archwilio:

- Cael eu cadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol, neu gan rywun o'r tu allan i'r adran, wedi'i benodi'n benodol i gadeirio'r pwyllgor archwilio, heb rôl ehangach oddi mewn i'r sefydliad (gyda chymorth priodol i gyfarwyddo â gwaith yr adran);

- Cynnwys, os oes modd, bobl annibynnol yn unig (neu o leiaf gael mwyafrif o bobl o'r fath). Ni ddylai'r pwyllgorau gynnwys y Swyddog Cyfrifo na'r Prif Swyddog Ariannol fel aelodau gweithredol, er fe allent fynychu cyfarfodydd;

- Ystyried a yw pob risg … ac nid risgiau ariannol yn unig wedi cael eu hasesu'n gywir;

- Cymeradwyo ac adolygu rhaglen waith yr archwiliad mewnol a derbyn adroddiadau'r archwiliad mewnol;

- Cael cyfranogiad yr archwilydd allanol a gofalu bod yr archwilydd yn derbyn yr holl bapurau ac yn cael gwahoddiad i bob cyfarfod;

- Caniatáu i Gadeirydd y pwyllgor archwilio gynnal sesiynau preifat â'r archwilwyr mewnol ac allanol;

- Herio'r archwilwyr allanol a mewnol ynghylch eu tybiaethau a'u methodolegau;

- Paratoi adroddiad blynyddol i'r Swyddog Cyfrifo am eu gwaith, y gellid ei gyhoeddi gyda'r cyfrifon adrannol.

Mae pwyllgor archwilio'r Bwrdd yn gwneud yn dda yn ôl y meini prawf hyn. Mae'n cynnwys pedwar Aelod annibynnol o'r Bwrdd ac mae'n cael ei gadeirio gan aelod sydd ei hun yn gyfrifydd ac nad yw'n Gadeirydd y Bwrdd. Ar hyn o bryd mae'r pwyllgor yn cyfarfod unwaith y flwyddyn ac ystyriwyd bod hyn yn ddigon aml er mwyn iddo allu cyflawni ei ddyletswyddau'n llwyr ac yn effeithiol.

Mae gan y Bwrdd ryddid i wneud ei drefniadau ei hun ar gyfer archwiliadau mewnol, yn amodol ar adolygiad rheolaidd gan

Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd yn gwneud hyn drwy wahodd cwmnï au allanol o archwilwyr cofrestredig i dendro am y gwasanaeth. Roedd y tendr cyntaf o'i fath yn ymwneud â chyfnod o bum mlynedd; roedd yr ail yn cwmpasu pedair blynedd. Un elfen ym mhroses y Bwrdd o ddewis darparwyr yw eu gallu i archwilio gweithdrefnau a dogfennau sydd – yn gyfan gwbl neu i raddau helaeth - yn Gymraeg. Dros y pum mlynedd diwethaf, sef cyfnod yr adolygiad, dewis y Bwrdd i ddarparu gwasanaeth archwiliad mewnol oedd PriceWaterhouse Coopers (neu eu rhagflaenwyr Coopers a Lybrand).

Yr un fath ag archwiliadau allanol, cynhelir archwiliadau mewnol yn unol â safonau archwilio. Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cynulliad Cenedlaethol wedi adolygu'r broses ac mae o'r farn ei bod yn foddhaol mewn perthynas â maint a chymhlethdod y Bwrdd. Mae adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol yn adolygu detholiad cynrychiadol o weithgareddau'r Bwrdd ac yn cyflwyno'i gasgliadau dan dri phennawd:

- **Gwendidau rheoli sylweddol,** a allai olygu bod y Bwrdd yn agored i golled ariannol, twyll neu gamgymeriad o bwys yn y cyfrifon;
- **Diffyg cydymffurfio â gweithdrefnau ariannol neu wendidau rheoli eraill,** lle mae'r gwaith archwilio'n nodi diffyg cydymffurfio â chyfarwyddebau'r Cynulliad Cenedlaethol neu wendidau rheoli eraill;
- **Ystyriaeth gwerth am arian,** lle awgrymir ffyrdd y gallai'r Bwrdd fod yn fwy effeithlon neu effeithiol, neu lle gellid arbed arian.

Pan ddadlennir gwendidau o'r fath, neu os gwneir argymhellion ar gyfer gwelliannau, mae'r archwiliad bob blwyddyn yn adrodd ar y cynnydd wrth ymateb i faterion o'r fath sy'n deillio o archwiliadau blynyddol blaenorol.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ni chafwyd unrhyw achosion o wendidau rheoli sylweddol. Lle gwneir argymhellion o dan y penawdau eraill, mae gan y Bwrdd hanes da o ran mynd i'r afael yn brydlon â'r materion a nodwyd. Eithriad yw i faterion o'r fath gael eu cario ymlaen o un adroddiad blynyddol i'r llall.

Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli gwariant cyhoeddus yn cael eu hadolygu drwy'r amser. Mae yna bryder ar hyn o bryd ynghylch rheoli risgiau. Ar 22 Rhagfyr 2000, cyhoeddodd Trysorlys EM lythyr Annwyl Swyddog Cyfrifo, DAO(GEN)13/00, a oedd yn nodi ei bod yn ofynnol i gyrff y llywodraeth, gan gynnwys Cyrff Cyhoeddus Anadrannol gweithredol, megis Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru wedi'u Noddi gan y Cynulliad, i gynnwys Datganiad o Reolaeth Fewnol yn eu cyfrifon. Roedd hyn yn dilyn casgliad adroddiad Turnbull mai diben system gadarn o reolaeth fewnol yw *'helpu i reoli risgiau yn hytrach na'u dileu'*. Effaith amlwg y gofyniad hwn ar Gyrff Cyhoeddus wedi'u Noddi gan y Cynulliad fydd datganiad gan y Swyddog Cyfrifo (Prif Weithredwr) yn yr Adroddiad Blynyddol ynghylch y prosesau a fabwysiadwyd gan y sefydliad i reoli risgiau, i ddechrau wrth wneud penderfyniadau ariannol ond yn syth wedyn mewn perthynas â'r holl agweddau ar weithredu polisïau.

Cafwyd arwyddion blaenorol ynghylch cwmpas ac effaith y llythyr DAO uchod ac, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae BylG wedi cymryd camau i ystyried goblygiadau'r gyfarwyddeb hon ar ei weithgareddau. Gofynnodd i'w archwilwyr mewnol fod yn rhan o'r broses ac mae'n gobeithio gallu cyflwyno'r gweithdrefnau angenrheidiol o fewn y raddfa amser a nodwyd yn y llythyr DAO (hy y dylid gweithredu'r tystysgrifau Swyddog Cyfrifo yn y blynyddoedd ariannol ar ôl 1 Ionawr 2001). Mae'n amlwg nad mater o ddim ond darparu tystysgrifau yw hyn. Mae'n golygu gwneud technegau asesu risgiau yn elfen annatod o holl agweddau sefydliad er mwyn ceisio canolbwyntio meddyliau'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar holl oblygiadau posib eu penderfyniadau. Nid yw'n fwriad i wneud sefydliadau yn wrthwynebus i risgiau. Yn wir, mae'n bosib y gall gael effaith dra gwahanol. Y cyfan a

ddisgwylir ohono yw mwy o ddisgyblaeth yn y broses o wneud penderfyniadau.

Ceir tystiolaeth glir o ddiwylliant o weinyddu gofalus a chyfrifoldeb ariannol oddi mewn i FyIG, ac mae gofynion ychwanegol y llythyr DAO uchod yn cael eu hystyried heb anesmwytho. Fodd bynnag, gallai canlyniadau'r mesur hwn effeithio ar y Bwrdd yn gyffredinol. Credwn y gallai fod o gymorth wrth wneud penderfyniadau ar lefel strategol. Felly, rydym o'r farn ei bod yn bwysig i aelodau'r Bwrdd (yn ogystal â'r staff a chynrychiolwyr cyd-sefydliadau) dderbyn cyfarwyddiadau trwyadl ar y pwnc.

Er mwyn i'r Bwrdd allu gwneud defnydd llawn o amser prin ei aelodau a'u cael i gyfranogi cymaint â phosib yng nghyfeiriad strategol y Bwrdd, awgrymwn fod y Bwrdd yn ystyried strwythuro'i adroddiadau gweithredol fel y gall:

- canolbwyntio ar adrodd ar y ddealltwriaeth fod y gweithgareddau'n mynd yn eu blaen yn foddhaol oni nodir yn wahanol;
- amlygu sefyllfaoedd lle gall aelodau'r bwrdd ychwanegu gwerth at lunio polisïau o'u safbwyntiau daearyddol a sectoraidd eu hunain;
- darparu mwy o wybodaeth am y meysydd hynny lle mae cyfarwyddyd a chyfranogiad y bwrdd o'r pwys mwyaf i'r sefydliad.

## Argymhellion

24. Bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o adrodd eithriad gan adran weithredol y Bwrdd i'r Bwrdd er mwyn gofalu bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o amser aelodau'r Bwrdd drwy hoelio sylw ar faterion sydd ag angen penderfyniadau ar lefel y Bwrdd a materion lle gall aelodau o'r Bwrdd ychwanegu gwerth at y broses o wneud

penderfyniadau o'u safbwyntiau daearyddol a sectoraidd eu hunain a'u meysydd arbenigedd.

25. Bod aelodau'r Bwrdd, y staff a chyd-sefydliadau allweddol yn cael cyfarwyddiadau trwyadl ynghylch goblygiadau asesu risgiau a gofalu bod hyn yn elfen annatod o waith y Bwrdd.

26. Bod y Bwrdd yn dyfeisio rôl ddeinamig i aelodau'r Bwrdd o ran datblygu strategaeth i fanteisio'n llawn ar eu harbenigedd sectoraidd a'u gwybodaeth bersonol am wahanol ranbarthau Cymru.

### 5.3.4 Cydymffurfio â safonau ymddygiad

Mae gan y Bwrdd Godau Ymddygiad sy'n seiliedig ar safonau cydnabyddedig, megis argymhellion Pwyllgor Nolan. Mae'r rhain, sydd ar gyfer y staff a'r aelodau, yn cydymffurfio â safonau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac mae gan y Bwrdd ffordd effeithiol o'u cyfleu. Mae'r codau'n ymwneud â meysydd fel cyfle cyfartal, cwynion, bod yn agored, tendro, caffael a iechyd a diogelwch.

Anelir y polisi cyfle cyfartal at sicrhau fod pob unigolyn yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal a bod pob penderfyniad yn ymwneud â recriwtio, dewis, hyfforddi, dyrchafu a rheoli gyrfa yn cael ei gymryd ar sail ystyriaethau gwrthrychol a swydd-berthnasol yn unig. Mae ByIG wedi ymdrechu i geisio gosod yr egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg ar agenda cyfleoedd cyfartal yng Nghymru. Derbyniwyd yr egwyddor gan y prif asiantaethau cyfle cyfartal ond erys peth gwaith eto cyn y'i gwireddir. Cododd ByIG y mater i sylw Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref 2000.

Mae'r gweithdrefnau tendro a chaffael yn dilyn arferion cydnabyddedig yn unol â safonau'r Cynulliad Cenedlaethol. Nid yw'r ffaith fod ByIG yn gweinyddu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg wedi golygu anawsterau o ran caffael gwasanaethau hanfodol ac nid yw wedi golygu costau uwch ychwaith.

Mae'r Bwrdd yn cymryd o ddifrif ei gyfrifoldeb dros gwynion, yn erbyn ei hun ac yn erbyn cyrff y mae'n gyfrifol amdanynt, drwy gyfrwng cynlluniau iaith neu gymorth grant, ac mae'n ymdrechu i'w datrys mewn ffordd adeiladol. Ar y cyfan, mae hyn wedi bod yn effeithiol wrth ddatrys problemau ac ni fynegwyd unrhyw bryderon am hyn yn ystod ein hymgynghori unigol a chyhoeddus.

### 5.3.5 Bod yn agored

Ymddengys fod y Bwrdd yn wir awyddus i weithredu mewn ffordd agored a hygyrch. Mae ganddo bolisi ysgrifenedig ynghylch bod yn agored. Mae ei adroddiadau blynyddol yn fanwl ac yn hawdd i'w darllen. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn agored i'r cyhoedd, fe'u cynhelir mewn gwahanol rannau o Gymru a chânt eu hysbysebu i hybu cyfranogiad gan y cyhoedd. Mae'r Bwrdd yn trefnu cynadleddau ac mae'n ymgynghori'n eang ar faterion perthnasol. Yr unig bryder a ddeilliodd o'n hymgynghori oedd canfyddiad mewn rhai sectorau fod y Bwrdd yn ynysig o ran materion sy'n wynebu ardaloedd Cymraeg oherwydd ei fod wedi'i leoli yng Nghaerdydd. Yn y gorffennol, mae'r Bwrdd wedi dibynnu ar ei berthynas â'r Mentrau Iaith mewn cysylltiad â'r cymunedau hyn. Ond rydym yn falch i nodi fod yna drefniadau ar y gweill i greu presenoldeb mwy uniongyrchol yng ngorllewin a gogledd Cymru.

### 5.3.5 Ystyriaethau effeithlonrwydd a gwerth am arian

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen i reoli costau, yn anad dim oherwydd y pwysau a fu arno i fodoli ar ei adnoddau mewn perthynas â therfynau ei gylch gwaith o dan y Ddeddf. Mae'r sefydliad yn ymwybodol iawn o gostau. Mae'n adrodd ar ei effeithlonrwydd yng nghyd-destun ei broses hunanasesu flynyddol.

Mae'r cyfyngiadau ar ei gostau gweinyddol wedi golygu defnyddio dychymyg wrth ddatganoli rhai o'i weithgareddau craidd i gyd-sefydliadau, yn enwedig yn y sector gwirfoddol

a'r trydydd sector. Mae'r adroddiad yn ymdrin â rhai o'r materion hyn yn fanylach mewn mannau eraill.

Nid oes gan y Bwrdd gynllun ysgrifenedig ynghylch darparu gwasanaeth ac nid yw'n fwriad ganddo fodloni safonau'r Sefydliad Safonau Rhyngwladol oherwydd natur amrywiol – ac anrhagweladwy yn aml – y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Pe bai natur ei weithgareddau'n newid oherwydd yr argymhellion yn yr adolygiad hwn, ac yn arbennig oherwydd newidiadau posib ym mholisi iaith Gymraeg y Cynulliad Cenedlaethol, bydd y Bwrdd yn sicr o ailystyried y mater yng nghyd-destun ei hunanasesu parhaus.

Rydym wedi awgrymu mewn man arall yn yr adroddiad hwn sut y gallai ByIG ddatrys rhai materion yn ymwneud ag effeithlonrwydd.

Rydym wedi ceisio cymharu costau cynnal y Bwrdd â chostau Cyrff Cyhoeddus tebyg wedi'u Noddi gan y Cynulliad. Ond mae'r ffyrdd amrywiol a ddefnyddir gan y cyrff hyn wrth gyflwyno datganiadau ariannol blynyddol a'r gwahaniaethau mawr o ran swyddogaethau ac ariannu yn ei gwneud yn amhosib i nodi meincnodau ystyrlon. Nododd yr adolygiad fod y berthynas rhwng costau gweinyddol â'r trosiant cyfan fwy neu lai yr un fath â'r hyn ydyw mewn Cyrff Cyhoeddus tebyg wedi'u Noddi gan y Cynulliad.

## CASGLIADAU

### 5.4 Crynodeb o'r casgliadau

Mae'r Bwrdd yn un o'r lleiaf o'r Cyrff Cyhoeddus wedi'u Noddi gan y Cynulliad. Mae hyn yn golygu taw cyfyng yw'r adnoddau sydd ar gael iddo ar gyfer gweinyddu o'u cymharu ag adnoddau Cyrff Cyhoeddus wedi'u Noddi gan y Cynulliad sydd â chyllidebau blynyddol sylweddol uwch. Serch hynny, mae'r sefydliad yn cael ei redeg yn dda. Mae'r adroddiadau archwilio mewnol ac allanol blynyddol yn dangos fod ganddo systemau rheoli cadarn a hanes o weinyddu medrus. Mae gan y Bwrdd Bwyllgor Archwilio â chyfansoddiad cywir, sy'n cynnwys aelodau anweithredol o'r Bwrdd,

sy'n cael ei ystyried yn fewnol ac yn allanol yn bwyllgor effeithiol. Mae perthynas y Bwrdd â'r Cynulliad Cenedlaethol ar lefel weithredol o ran trefniadau adrodd a gweithio yn bositif ac yn gynhyrchiol.

Oherwydd bod y rheoli a'r adrodd wedi mynd yn fwy soffistigedig yn ystod y degawd diwethaf, rhaid amau rhai o'r cyfyngiadau hynafol ar gyrff anadrannol. Rydym yn amheus ynghylch perthnasedd rhai o'r cyfyngiadau llafurus a chymharol fympwyol ar ryddid y Bwrdd i weinyddu'r adnoddau a roddir iddo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y llaw arall, rydym o'r farn y gallai'r symud tuag at asesu risgiau fod yn arf pwysig i'r Bwrdd wrth werthuso effaith ei ymyriadau er budd yr iaith Gymraeg.

Mae gan y Bwrdd ddiwylliant o weinyddu cyfrifol sy'n ymestyn at y gwerthusiad rheolaidd – yn fewnol ac yn allanol – o'i brif weithgareddau a gwariant. Serch hynny, hoffem weld y gwerthuso'n dod yn fwy amlwg fel rhan annatod o'r broses datblygu polisïau.

# ATODIAD 1 : CRYNODEB O ADRODDIAD CAM 1

Ym Mai 2000 cyhoeddodd Edwina Hart, Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, gychwyn ar raglen i adolygu'r holl gyrff cyhoeddus sy'n derbyn nawdd gan y Cynulliad, gan gynnwys ByIG. Apwyntiwyd cwmni ymgynghorol Newidiem i ymgymryd â'r Adolygiad Pob Pum Mlynedd cyntaf hwn o FyIG. Cyflwynir eu casgliadau ar derfyn y cam cyntaf yn yr adroddiad interim yma.

Mae'r adroddiad interim yn ystyried a oes angen o hyd am y Bwrdd a'i swyddogaethau. Bydd ail gam yr astudiaeth yn rhoi pwyslais ar atebolrwydd, effeithiolrwydd strategol a sicrhau gwelliant parhaus y Bwrdd. Mae casgliadau'r adroddiad wedi eu seilio ar broses ymchwil ac ymgynghori gynhwysfawr yn cynnwys ymgynghoriadau cyhoeddus, cyfweliadau wyneb-i-wyneb gyda detholiad o sefydliadau ac unigolion allweddol a chyfweliadau gydag aelodau a staff ByIG ei hun. Mae'r astudiaeth hefyd wedi asesu anghenion cynllunio iaith yng Nghymru ac wedi arolygu dulliau gwarchod a datblygu ieithoedd 'lleiafrifol' mewn gwladwriaethau eraill yn y byd.

Ein barn ni, fel ymgynghorwyr annibynnol, yw mai ychydig iawn o amser a gafodd y Bwrdd, a grëwyd fel corff statudol mor ddiweddar â Rhagfyr 1993 gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, i gyflawni'r ystod eang o gyfrifoldebau a roddwyd iddo gan y Ddeddf a'r Ysgrifennydd Gwladol.

Gall y Bwrdd hawlio clod haeddiannol am ei gyfraniad at y newidiadau positif tuag at yr iaith Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac am ymgymryd â'i genhadaeth mewn ffordd strategol a phroffesiynol.

Mae'r Cynulliad yntau'n gorff newydd ac yn dal i ymgodymu â'r ystod eang o gyfrifoldebau sydd ganddo. Awgrymwn fod angen mwy o amser i'r ddau gorff ystyried gyda'i gilydd oblygiadau'r strwythurau llywodraethol newydd yng Nghymru ar gyfer polisi tuag at yr iaith Gymraeg.

Yn ein barn ni, byddai angen dangos diffyg sylweddol ym mherfformiad y Bwrdd neu achos argyhoeddiadol iawn dros i gorff arall ymgymryd â'i ddyletswyddau cyn awgrymu newid sylweddol yn y drefn bresennol ar hyn o

bryd. Rydym wedi canfod fod agwedd y Bwrdd tuag at ei genhadaeth yn un cydwybodol. Mae aelodau'r Bwrdd yn ychwanegu arbenigedd sectorol a dimensiwn rhanbarthol at ei weithrediadau. Disgwylir i'r Bwrdd ufuddhau i'r cyfundrefnau archwilio allanol sy'n gyffredin i bob corff cyhoeddus cyffelyb. Yn ogystal, mae'r Bwrdd ei hun yn comisiynu adolygiadau annibynnol o'i brif raglenni. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cymeradwyo ei bolisï au a'i gynlluniau corfforaethol.

Er hyn, rydym wedi ystyried amrediad o ddewision posibl ar gyfer cyflawni dyletswyddau'r Bwrdd mewn ffyrdd eraill neu gan gyrff eraill. Awgrymwyd rhai o'r dewision hyn mewn ymatebion i broses ymgynghorol sylweddol a rhai fel rhan o'r broses werthuso. Gwnaed hyn i gyd er mwyn asesu a oedd angen neu alw am newid. Wedi ystyried yr opsiynau hyn, rydym yn casglu fod angen parhaol am holl swyddogaethau'r Bwrdd tra pery Deddf yr Iaith mewn grym. Mae gennym dystiolaeth o gonsensws cyffredinol, ond nid unfrydol, o blaid cadw'r Bwrdd yn ei wedd bresennol. Ni chawsom ein perswadio y deilliai unrhyw fantais amlwg o'i ddiddymu, na'i ail-strwythuro nac o ddosbarthu ei swyddogaethau i eraill ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, credir y gellid sefydlogi strwythur presennol y Bwrdd a hwyluso'i allu i gyflawni'r swyddogaethau a osodir arno gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg

- **pe bai'r Cynulliad yn cymryd perchnogaeth o'r strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg ac yn ei fabwysiadu, gyda pha addasiadau bynnag y gwêl yn dda i'w cyflwyno, fel strategaeth genedlaethol; a**

- **phe bai'r Cynulliad yn diffinio'r disgwyliad ar FyIG i 'gadw gorolwg dros addysg a hyfforddiant Cymraeg' a chytuno nodau a strwythur adrodd penodol gyda'r Bwrdd ar gyfer cyflawni'r swyddogaeth hon.**

Yn ddiau, rhoddir sylw i'r materion hyn yn yr arolwg eang o bolisi ar yr iaith Gymraeg y bydd y Cynulliad yn ymgymryd ag ef yn y dyfodol agos.

### Materion a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor Diwylliant ar yr adroddiad interim drafft ac ymateb yr ymgynghorwyr

Manylodd Alison Halford AC ar y cyfeiriad ym mharagraff 6.5 at bwerau ByIG a theimlai fod angen mwy o eglurhad. Rydym yn hyderus fod y farn a fynegwyd yn adlewyrchiad teg o'r consensws eang a ddaeth i'r amlwg o'r

sylwadau a gafwyd fel ymateb i'n gwahoddiad i gynnig sylwadau a gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn uniongyrchol.

Fel y mae'r adroddiad yn nodi, cafwyd sylwadau mwy eithafol ar ddwy ochr y ddadl. Efallai y dylem fod wedi nodi'n gliriach fod rhain yn gyfyngedig i leiafrif o'r rhai a ymatebodd. Roedd y mwyafrif yn ystyried fod pwerau presennol BylG yn ddigonol ac yn addas. Roedd geiriad yr adroddiad yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol ystyried y mater yn ddyfnach. Fodd bynnag, casglwyd y byddai hyn wedi golygu galw i gwestiwn Deddf yr Iaith Gymraeg ei hun. Felly, roedd y tu hwnt i gylch gorchwyl yr astudiaeth i fynd â'r mater ymhellach. Yn ddiau, bydd adolygiad cyfredol y Pwyllgor ar bolisi tuag at yr iaith Gymraeg yn fforwm mwy priodol i drafodaeth o'r fath.

Cyfeiriodd Rosemary Butler AC at yr ystadegyn yn yr adroddiad a oedd yn dangos fod y nifer o blant ysgol gynradd a oedd yn derbyn eu haddysg yn gyfan neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros yn sefydlog o gwmpas 20% am y degawd diwethaf. Roedd hyn i'w weld yn groes i dystiolaeth y cynnydd parhaol mewn ysgolion Cymraeg.

Ymddengys fod y rhesymau'n rhannol ddemograffig ac yn rhannol oherwydd fod angen darparu mwy o ysgolion o natur gymunedol er mwyn cynnal cynnydd ar y raddfa a welwyd yn y 1970au a'r 80au yn yr ardaloedd lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Bydd hyn yn anodd i'w gyflawni heb raglen sylweddol o adeiladu ysgolion newydd.

Cododd Lorraine Barrett AC fater sy'n amlygu sensitifrwydd rhai agweddau ar ddatblygu iaith yng Nghymru. Mae'n amlwg fod Deddf yr Iaith yn gosod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau priodol trwy gyfrwng y Gymraeg ac y mae'n hanfodol i statws yr iaith fod y Cynulliad Cenedlaethol yn arwain yn y mater yma. Mae hefyd yr un mor amlwg fod i hyn oblygiadau o safbwynt cyllid ac adnoddau dynol sydd â'r potensial i greu tensiynau rhwng y ddwy brif gymuned ieithyddol. Nid yw'n fater y gellir ei ddatrys o fewn cylch gorchwyl yr astudiaeth ond y mae'n tanlinellu pwysigrwydd y dulliau sensitif ac ymarferol y mae BylG wedi ceisio'u defnyddio.

Cyfeiriodd Alison Halford AC at yr adran o'r adroddiad yr oedd sylwadau Lorraine Barrett AC wedi eu sylfaenu arni. Gofynnodd am eglurhad o'r dystiolaeth a oedd yn sail i'r gosodiadau a wnaed.

Roedd yr adran A1/6 yn cynnwys arolwg o sefyllfa bresennol yr iaith Gymraeg yng Nghymru a gomisiynwyd gan arbenigwr yn y maes fel rhan o'r astudiaeth. Teimlwn fod yr arolwg wedi ei seilio ar dystiolaeth gadarn a gwrthrychol o sawl ffynhonnell, yn cynnwys astudiaethau BylG ei hun.

for the statements contained in it. The section A1/6 contained a review of the present day state of the Welsh language in Wales and was commissioned from an expert in the field as a part of the study. We believe that the review is firmly grounded in objective evidence gleaned from a number of sources, including the WLB's own studies. The chapter was included as a context paper among other annexes to the main report to assist readers who were not familiar with the recent history and present state of the Welsh language to understand the extent and nature of the task confronting the WLB in promoting and facilitating the use of Welsh on a number of fronts.

# ATODIAD 2 : CYLCH GORCHWYL

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
ADOLYGIAD POB PUM MLYNEDD – CYLCH GORCHWYL (HYDREF 2000)

<u>Cyflwyniad</u>

Cynhelir adolygiad pum mlynedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng nghyd-destun y Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Pum Mlynedd a gyhoeddwyd gan y Cynulliad. Mae'r Canllawiau yn nodi'r broses ar gyfer cynnal yr adolygiadau. Mae hyn yn cynnwys hunan-asesiad gan y corff noddedig, trafod ag Aelodau'r Bwrdd ac uwch reolwyr, ceisio barn y prif gyfranddeiliaid gan gynnwys barn y staff a'r undebau llafur, partneriaid a chwsmeriaid.

Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi'r prif gwestiynau y bydd yn rhaid i'r Adolygiad fynd i'r afael â hwy. Nodir y materion sy'n gyffredin i bob adolygiad yn y Canllawiau, ond mae'r Cylch Gorchwyl hefyd yn nodi materion sy'n benodol i FyIG.

Cynhelir yr Adolygiad mewn dwy ran: yr Adolygiad Strategol a'r Adolygiad o Lywodraethu Corfforaethol.

## Yr Adolygiad Strategol

Cynhelir yr adolygiad strategol yng nghyd-destun cynllun strategol y Cynulliad *gwellcymru.com*.

<u>Cam 1. Swyddogaethau</u>

**Yng ngoleuni dyletswyddau statudol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol, a oes angen holl swyddogaethau'r Bwrdd bellach ac os oes, ai'r fframwaith trefniadol presennol yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r swyddogaethau hynny?**

Pa fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli Bwrdd yr Iaith Gymraeg?
A oes angen holl swyddogaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg bellach?
A yw ystod swyddogaethau'r Bwrdd yn ddigon cyflawn a chydlynol i ddylanwadu ar ddyfodol y Gymraeg?
A oes angen i Gorff a Noddir gan y Cynulliad gyflawni'r swyddogaethau hyn – a fyddai ffyrdd eraill o gyflawni'r swyddogaethau yn debygol o fod yn fwy effeithiol?
Ai un corff sydd orau i gyflawni'r swyddogaethau hyn? A oes angen rhannu'r swyddogaethau rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cynulliad Cenedlaethol neu gyrff cyhoeddus eraill?

Allbwn: Adroddiad Interim yn argymell pa newidiadau, os o gwbl, y mae angen eu gwneud i'r trefniadau presennol, pa bwerau sydd gan y Cynulliad i wneud y newidiadau hynny, ac yn nodi manteision ac anfanteision y newidiadau.

Cam 2: Effeithiolrwydd Strategol

**Yn amodol ar y darganfyddiadau yn yr Adroddiad Interim: a ddylid gwneud unrhyw welliannau i'r ffordd y cyflawnir swyddogaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, o ystyried ei swyddogaethau statudol a gwerthoedd ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol, a'r ffordd y mae'r berthynas rhyngddo â'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio.**

Dylai hyn ystyried unrhyw astudiaethau annibynnol a'r mewnbynnau eraill a nodir yn y canllawiau ar gyfer Adolygiadau Pum Mlynedd.

A yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi datblygu cyfeiriad strategol clir, sydd ar seiliau cadarn, ers 1993 sy'n hwyluso datblygiad iaith ledled Cymru? Beth fu prif lwyddiannau strategol y Bwrdd ers 1993, i ba raddau y mae wedi bodloni ei amcanion, sut y mae'r Bwrdd wedi perfformio yn erbyn ei dargedau, sut y mae ei berfformiad yn cymharu â pherfformiad cyrff eraill sy'n ymwneud â datblygu iaith mewn modd cyffelyb mewn mannau eraill, a oes angen mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â pherfformiad?
Pa mor effeithiol yw dulliau cynllunio corfforaethol Bwrdd yr Iaith Gymraeg o safbwynt pennu blaenoriaethau a thargedau a dyrannu adnoddau yn unol â hynny?

A yw proses cynllunio corfforaethol Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dangos ei fod yn mabwysiadu dull cynhwysfawr ac integredig o weithredu wrth fynd ati i gyflawni ei swyddogaethau?
Pa mor effeithiol yw trefniadau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer ymateb i amcanion strategol y Cynulliad Cenedlaethol, a'r gwerthoedd a'r themâu sy'n arwain ei waith (gan gynnwys cyfle cyfartal, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a datblygu cynaliadwy) o ran y ffordd y mae'n cynllunio ac yn cynnal ei fusnes. Sut y gellid eu gwella?
A oes cyd-ddealltwriaeth effeithiol o ba rôl y mae aelodau'r Bwrdd a'r uwch-reolwyr yn ei chwarae wrth bennu amcanion corfforaethol a monitro'r ffordd y cânt eu gweithredu?
A yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ymateb yn ddigonol i'w bartneriaid a'i gwsmeriaid, a yw'n ennyn eu hyder fel corff y gallant wneud busnes ag ef, a oes ffyrdd o gryfhau'r berthynas?
A yw'r trefniadau adrodd rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddigonol, a oes angen mwy o ryddid a hyblygrwydd ar y Bwrdd, a yw'r Bwrdd yn ddigon atebol i'r cyhoedd o ran y gwaith y mae;n ei wneud?

## Adolygiad o lywodraethu corfforaethol

**A yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rheoli ei gyllid yn effeithiol ac yn unol â gofynion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian? Beth y mae'r Bwrdd wedi ei wneud i wella ei effeithlonrwydd gweithredol? Dylai hyn roi sylw i dystiolaeth o fframwaith rheoli presennol y Bwrdd, fel y'i nodir yn Atodiad 2 i'r Canllawiau.**

A yw'r trefniadau cyllid a rheoli rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cynulliad Cenedlaethol yn bodloni gofynion sefydledig?
O edrych ar yr adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, a ellir bod yn ffyddiog bod y Bwrdd yn rheoli ei gyllid yn unol â disgwyliadau'r Cynulliad ar gyfer cyrff cyhoeddus?
A yw'r Bwrdd yn rheoli ei gyllid a'i asedion yn effeithiol, a eir ar drywydd materion gwerth am arian, gan gynnwys gwerthuso polisi, gydag arddeliad?
A yw'r modd y mae'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn bodloni'r safonau a ddisgwylir gan gyrff cyhoeddus mewn perthynas ag arferion caffael, bod yn agored a delio â chwynion?

A yw costau rhedeg a lefelau staffio'r Bwrdd yn cael eu rheoli a'u harchwilio? A fyddai'n fuddiol eu cymharu â chostau gweithredol cyrff cyffelyb?

A oes gan y Bwrdd drefniadau da ar gyfer monitro ansawdd ac effeithlonrwydd y modd y mae'n cyflwyno ei wasanaethau?

A yw'r Bwrdd wedi profi ei fod yn gallu gwella ei effeithlonrwydd a bod ganddo gynlluniau pendant ar gyfer gwneud hynny?

# ATODIAD 3 : YMGYNGHORIADAU A CHYFLWYNIADAU

## Sector Cyhoeddus

1. Gwasanaeth cyflogi
2. DVLA
3. British Cattle Movement Service
4. Cyngor Sir Powys
5. Y Cyd-bwyllgor Addysg Cymreig
6. UK Central Council for Nursing, Midwifery and Health Visiting
7. Welsh National Board for Nursing, Midwifery and Health Visiting
8. Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
9. Cyngor Sir Fynwy
10. Home Office
11. Cyngor Cymuned Pentyrch
12. Cyngor Tref Dinbych
13. Cyngor Sir Ynys Môn
14. Central Council for Education and Training in Social Work
15. Cynghorau Cyllido Cymru
16. Gwasanaeth Tân De Cymru
17. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
18. Cyllid y Wlad
19. Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch
20. Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen
21. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
22. Iechyd Morgannwg
23. Pwyllgor Defnyddwyr y Rheilffyrdd
24. Cyngor Gwynedd
25. Cyngor Sir y Fflint
26. Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
27. Office of the Director General of Water Services (OFWAT)
28. The Planning Inspectorate
29. Cyngor Cefyddydau Cymru
30. Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
31. Cyngor Bro Morgannwg
32. Heddlu Gogledd Cymru
33. Cyngor Defnyddwyr Cymru
34. Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru
35. Cyngor Tref Caerfyrddin
36. Cyngor Cefn Gwlad Cymru
37. Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol dros Gymru
38. Heddlu De Cymru
39. Ministry of Defence
40. Cyngor Rhondda Cynon Taf
41. Karen Prys Jones, Swyddog Cefnogaeth Gorfforaethol (Iaith Gymraeg), Cyngor Sir y Fflint

42. Steve Eaves, Swyddog yr Iaith Gymraeg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
43. Elfrys Jones, Swyddog yr Iaith Gymraeg, Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru
44. Alaw Wyn Jones, Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg, GIG Dinbych a Chonwy
45. Nesta Eluned, Parc Cenedlaethol Eryri

### Sector Gwirfoddol/Trydydd Sector

1. Urdd Gobaith Cymru
2. Menter Cwm Gwendraeth
3. Menter Caerdydd
4. Menter Iaith Gwynedd
5. Sefydliad y Merched
6. Merched y Wawr
7. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
8. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
9. Menter a Busnes
10. Hywel Jones, Mudiad Ysgolion Meithrin
11. Catrin Tomos, Menter Iaith Sir y Fflint
12. Hannah Huws, Chwarae Teg

### Sector Preifat

1. Banc HSBC
2. Cymdeithas Adeiladu Nationwide
3. Deiniol Tegid, BT

### Sector Addysg

1. Bwrdd Addysgu Cymraeg, Prifysgol Cymru
2. Coleg Cerdd a Drama Cymru
3. Prifysgol Cymru, Bangor
4. Estyn
5. Coleg Meirion Dwyfor
6. Dr Cen Williams, Swyddog Datblygu Addy sg Cyfrwng Cymraeg. Prifysgol Cymru
7. Steve Morris, Cadeirydd, Consortiwm Addysg Gymraeg i Oedolion Gorllewin Morgannwg
8. Geraint Wyn Jones, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Cymru, Bangor

### Sector y Gyfraith

1. Syr Roderick Evans CF, Barnwr Cyswllt â'r Iaith Gymraeg, Cylch Cymru a Chaer
2. Pwyllgor Llysoedd Ynadon De Cymru
3. Legal Service Commission

### Eraill

1. Cefn
2. The European Bureau for Lesser Used Languages (Ireland Office)
3. Allweddiaith
4. Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
5. Comunn na Gaidhlig, Yr Alban

### Unigolion

1. Euryn Ogwen, Bro Morgannwg
2. M Hayes, Abertawe
3. Stephen Curry, Castell Nedd
4. Penri Williams, Caerdydd
5. W C Chilcott, Abertawe
6. David Painting, Abertawe
7. Y Cynghorydd Ioan Richard, Abertawe
8. K Davies, Abertawe
9. Gloria Owens, Abertawe
10. C Dawson, Abertawe
11. Colin Nalsley, Abertawe
12. Brian Jones, Abertawe
13. Jack Harris Consultancy, Abertawe
14. David Harris, Abertawe
15. Peter Smith, Dinbych
16. C Dallimore, Abertawe
17. R G Derrick, Abertawe
18. Haydn Jenkins, Abertawe
19. Dafydd Thomas, Abertawe
20. Marc Williams, Llanelli
21. Meurig Williams, Caerdydd

# ATODIAD 4 : LLYFRYDDIAETH A DOGFENNAU A DDEFNYDDIWYD

## Dogfennau Bwrdd yr Iaith Gymraeg

*Amlinelliad o Strategaeth ar Gyfer yr Iaith Gymraeg* (1995)
*Strategaeth ar Gyfer yr Iaith Gymraeg* (1996)
*Cynlluniau Iaith Gymraeg : Eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* (Mawrth 1996)
*Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005* (1999)
Cynllun Corfforaethol Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2001-02 - 2003-04
Cynlluniau Gweithredol Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1999-2000 - 2001-02
Adroddiadau Blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1995-96 i 1999-2000
Adroddiadau Archwiliadau Mewnol Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1995-96 i 2000-01
*Bwrdd yr Iaith Gymraeg: Datganiad Rheolaeth (yn cynnwys y Memorandwm Ariannol)*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Medi 2000
Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Hunan Asesiad ar gyfer yr Adolygiad Pob Pum Mlynedd
*Agweddau'r Cyhoedd tuag at yr Iaith Gymraeg: Adroddiad Ymchwil*, NOP Social and Political ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Tachwedd 1995
*Y Cynllun Ymchwil Cymunedol*, Colin H Williams a Jeremy Evas, Prifysgol Cymru, Caerdydd ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Awst 1997
*Defnydd o'r Iaith Gymraeg 2000: Arolwg o ddisgyblion 6ed dosbarth mewn addysg Cymraeg a dwyieithog*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2000
*Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2000: Adroddiad Arolwg*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2000
*Llinell Gyswllt â'r Gymraeg: Dadansoddiad o Ddefnydd 1998-2000*, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2000
*Arolwg Mentrau Iaith Cymru 2000*, Kathryn Jones and Gareth Ioan, 2000
*Monitoring the Implementation of Welsh Language Schemes: Project Report for the Welsh Language Board January 2001*, M E Kermode, Policy and Operational Reviews, Rhagfyr 2000.

Gwefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg: www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

**Dogfennau eraill**

Deddf yr Iaith Gymraeg1993

www.gwellcymru.com Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mai 2000

*Reversing Language Shift*, Joshua A Fishman 1991 (Multilingual Matters

*A Geography of the Welsh Language 1961-1991*, Aitchison J a Carter H, 1994 (Gwasg Prifysgol Cymru)

*Tuag at Strategaeth Towards a Language Strategy for North-west Wales* Gwynedd Bilingualism Forum 1995

*Handbook of Language and Ethnic Identity*, Joshua A Fishman 1999 (OUP)

*Can Threatened Languages be Saved? Reversing Language Shift Revisited: A 21st Century Perspective*, Joshua A Fishman 2000 (Multilingual Matters)

*Language Planning and Language Use*, Glyn Williams a Delyth Morris 2000